

ECO'R WYDDFA

Rhif 101

MAWRTH 1985

Pris 20c

Y FILLTIR ARIAN



Margaret Williams (chwith) a werthodd fwyaf o docynnau yn cyflwyno siec i Mrs. Lillian Hughes, Bethesda, trefnydd yr apêl.

Gosodwch ddarnau 50c ochr yn ochr am bellter o filltir, ac yn ôl y mathemategwyr mae ganddoch obaith o gasglu £27,000. Golyga hyn y byddai'n rhaid i chwi gasglu 54,000 o ddarnau pum deg ceiniog i gwblhau'r filltir! Tipyn o gamp! Ond mae apêl wedi ei chychwyn i geisio cyrraedd y nod yma, ac yn ôl y Trefnydd, Lillian Hughes o Gerlan, Bethesda fe gymer tua thair blynedd i'w chwblhau. Mae hon yn apêl arbennig iawn oherwydd defnyddir yr arian yma er budd dioddefwyr cancr sy'n byw yng Ngwynedd yn unig. Gobeithir rhannu'r arian rhwng gwaith ymchwil, triniaeth o'r afiechyd a gofalaeth am ddioddefwyr yn dilyn triniaeth.

Wrth gwrs, mae'n amhosibl i griw bychan godi'r swm anferth yma a gwaith y pwyllgor yw

perswadio cymdeithasau i ysgwyddo tipyn ar y baich drwy drefnu gweithgareddau megis raffl, nosweithiau coffi ac ati.

Yn wir, gwnaed hyn yng Nghlwb Eryri, Penisarwaun. Rhoddodd Mrs Patricia Owen, perchennog y Clwb fwrdd snwcer bychan fel gwobr i raffl a drefnwyd yno. Trwy ei hymdrechion diflino hi ynghyd â haelioni'r aelodau casglwyd £200 (golyga hyn 400 pum deg ceiniog).

Beth am gymdeithasau eraill ym mro'r Eco? Pwy a wŷr, efallai, mai rhai o'ch anwyliaid chwi fydd yn elwa yn y pen draw. Syniad digon trist, ond yn anffodus iawn, gallai fod yn ffaith.

Os ydych am fwy o fanylion, cysylltwch â Lillian Hughes, 5 Stryd Morgan, Gerlan, Bethesda 601090.

APÊL

Deunydd stori dda yn eich pentref? Rhowch wybod i'r Eco mewn da bryd os gwelwch yn dda. Digwyddiad sy'n werth ei gofnodi â llun yn eich pentref? Holwch am gael benthyc un o gamerau'r Eco, mae'r rhifau ffôn perthnasol ar dudalen 2. COFIWCH fod angen pob deunydd ar gyfer yr Eco i law tua wythnos cyn iddo ymddangos o'r Wasg.

AMSER PRYSUR I CHWIORYDD TALENTOG



Bu tair chwaer o Ddeiniolen yn canu'n swynol iawn ar ddwy o recordiau diweddar gan Gwmni Sain, Llandwrog.

Bu Annette, Olwen a Marina Bryn Roberts yn canu cefndir i ddau artist reit wahanol i'w gilydd yn stiwdio'r cwmni - Huw Edward Jones y canwr 11 oed o Borthaethwy a'i record gyntaf 'Clir yw'r Lleisiau', a record hir gyntaf Geraint Griffiths.

Ar ôl gweithio ar record Huw Edward, gwahoddwyd y genod i ganu hefo Geraint Griffiths ar ei record hir gyntaf 'Madras', sy'n cynnwys y gân adnabyddus 'Y Cwm'.

Bu'r genod yn cyd ganu ers tro byd, trwy gadw cyngherddau lleol gyda'u rhieni a gŵr Annette, Gwyn.

Daeth Annette ei hun i'r amlwg trwy ei gwaith graenus yn cyfeilio ar nifer o recordiau Sain, ac ar nifer o raglenni teledu ac ar lwyfannau lleol.

Canmolwyd y genod am eu safon uchel o ganu ar y ddwy record, oedd yn golygu newid arddull yn sylweddol, yn enwedig ar ganeuon fel 'Edrych am ryweth' oedd yn gân ag arddull 'blues' arni ar record Geraint. Yn ddiweddar hefyd, bu'r genod yn canu gyda Tony ac Aloma ar eu cyfres newydd fydd ar S4C cyn hir.

Ddydd Sul, Chwefror 24 roedd Annette yn hedfan o faes awyr Gatwick i Lagos, Nigeria am wythnos. Bydd hi, ynghyd â Marian Roberts, Brynsiencyn, Tom Evans Gwanas, Dafydd Edwards a Trefor Selway yn cynnal tri chyngherdd Gŵyl Ddewi yno.

Ym mis Ebrill, fel rhan o ddathliadau 'Blwyddyn leuenctid' bydd pobl ifanc o ugain gwlad yn ymweld â Chymru ac yn ffurfio côr o dan arweiniad Alun Guy. Gwahoddwyd Annette i gyfeilio i'r côr hwnnw a bydd yn perfformio mewn cyngherddau ym Mangor, Aberystwyth a Chaerdydd.

Yn ogystal a rhoi gwersi piano yng Ngholeg Prifysgol, Bangor, mae Annette yn treulio rhan o'i hamser ar raglenni teledu megis 'Noson Lawen' a 'Galw Gari'.

LLWYDDIANT YN SIOE CRUFTS



Roedd Gareth Williams, Bod Owen, Llanberis wedi'i blesio'n arw pan daeth un o'i gŵn yn bumed pan ydych chi'n i'w gŵn iau yn Sioe Fawr Crufts yn Llundain yn ddiweddar.

Labrador du, blwydd a hanner yw Dolafon Dance master, i roi iddo ei enw swyddogol, (ond Dan yn y tŷ) ac mae'n un o chwech o gŵn pedigri a fridir gan Gareth. Ers dim ond blwyddyn o'i

arddangos - mae wedi ennill 25 gwobr gyntaf gan gynnwys dwy yn yr un sioe yn Lerpwl ar Chwefror 24. Mae mewn llinach gref; daeth ei fam Sooty yn bedwerydd yn yr un adran yn Crufts ddwy flynedd yn ôl.

Cred Gareth y bydd Dan yn mynd ymlaen o nerth i nerth ac yn ennill llawer rhagor o anrhydeddau. Dymunwn bob llwyddiant iddo.

ECO'R WYDDFA

RHIF 101
Mawrth 1985

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglws,
Penisrwaun (Llanberis 872438)

TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis
(871561)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,
60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 77163).

Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn
Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug. (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa
(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Mrs Jane Roberts, 'Rallt
Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch,
Llanberis (871561)

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

NANT PERIS: Mrs J.E. Elis, 8
Glanrafon, Nant Peris. (Llanberis
870 733).

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, 9
Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Edward Elias, 21
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg

Mawrth 28

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH

Mawrth 19

os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

Annwyl Olygydd,

Fel un o hogia Bethel byddaf yn
edrych ymlaen at Eco'r Wyddfa, a
chefais bleser mawr gyda Rhifyn
Arbennig mis Chwefror.

Digwyddiad arbennig gan
mlynedd yn ôl oedd cynnal Cymanfa
Ganu Annibynwyr Sir Gaernarfon am
y tro cyntaf. Y bwriad oedd ei gynnal
yn y Pafiliwn, Caernarfon, ym
Mehefin 1885, gyda'r Parch Edward
Stephen (Tany Marian) yn arwain.
Ond bu Tany Marian farw ym mis
Mai, ac fe ohiriwyd y Gymanfa tan fis
Awst. Roedd dau Arweinydd, Eos
Morlais (Robert Rees), a'r Parch
W. Emlyn Jones. Yr Ysgrifennydd
oedd y Parch R.W. Griffith, Bethel, a'r
Trysorydd Mr. W.J. Williams, a fu
unwaith yn Brifathro Ysgol Bethel
ond wedyn aeth yn Gyfrifwr ac
Ysgrifennydd cwmni llongau yng
Nghaernarfon. Daeth naw mil o
bobol i'r Gymanfa, a methodd llw
arall a chael mynedfa. Cymaint oedd
y llwyddiant fel y'i cynhaliwyd bob
pum mlynedd hyd at 1914.
Oherwydd y Rhyfel Byd Cyntaf, bu
bwlch o saith mlynedd hyd at 1921,
ac wedyn fe'i cynhaliwyd bob tair
blynedd yn y Pafiliwn hyd at 1939.

Cadeirydd Pwyllgor y CGerddorfa
ar gyfer Cymanfa 1927 oedd Mr.
Ffowc Williams (Bethel y pryd
hynny), a phan ail-gyfyddwyd y
Gymanfa Fawr ar ôl yr Ail Ryfel Byd
a'i chynnal ym Mhafiliwn yr
Eisteddfod Genedlaethol pan
ymwelai â Sir Gaernarfon, Mr.
Williams oedd yr Ysgrifennydd
Cyffredinol. Iddo ef yn bennaf rhaid
diolch bod Cymanfa Fawr
Annibynwyr Sir Gaernarfon yn
parhau i gael ei chynnal bob tair
blynedd, er nad yw'r Pafiliwn mewn
bodolaeth na Phafiliwn yr Eisteddfod
ar gael. Fe'i cynhelir erbyn hyn yn
Salem, Caernarfon, ac fe ddethlir
canmlwyddiant y Gymanfa Fawr
gyda Cymanfa Jiwibili yn Salem,
dydd Sadwrn, Hydref 5ed, 1985. Mr.
Ffowc Williams yw'r Llywydd a
Chadeirydd y Pwyllgor — felly, mae
wedi gwasanaethu y Gymanfa Fawr
yn ddi-fwlch ers bron trigain
mlynedd!

Edrychir ymlaen at Gymanfa'r
Canmlwyddiant, o dan arweiniad Mr.
Alun Guy, gan obeithio y bydd yr un
brwdfrydedd ar ddechrau'r ail ganrif
yn ei hanes, ac a ddangoswyd yn y
Gymanfa gyntaf, gan mlynedd yn ôl.

Yr eiddoch yn gywir

Frank Rhys Jones
Foelas,
Tregarth,
Bangor.

RHAN I BOBL LEOL YN NYFODOL LLANBERIS

Annwyl Olygydd,

Pan gyhoeddwyd ychydig wyth-
noasu yn ôl fod perchnogion newydd
Rheilffordd yr Wyddfa, sef Cadogan
Properties Ltd., am ryddhau nifer
fawr o gyfranddaliadau ychwanegol
er mwyn codi cyfalaf ar gyfer rhaglen
ehangu, gwnaed sylwadau cyhoed-
us y buasai hyn yn foddion i 'bobl
lleol' fod yn berchnogion rhannol ar y
fenter. Hwyrach mai diben hyn oedd
cyfystyru budd budd Cadogan â
budd lleol, gan dynnu darlun o fenter
nid tan reolaeth ycydig w'r bysnes
diwyneb pell, ond yn nwylo'r
gymuned yn hytrach, ac mewn bod
we i budd hi.

Gorau pe bae; oherwydd mae
Mudiad Adfer wedi dadlau'n gyson
fod modd i'r fasnach ymwelwyr
ddwyn lles i'n broydd fel atodiad at
ddulliau cynhaliath eraill, ar yr
amodau ei bod o dan reolaeth

ddemocrataidd leol, ac wedi'i datb-
lygu mewn modd nad yw'n
fygythiad i fodolaeth cymunedau
gwreiddiedig. Ond o fwrw golwg ar
gynlluniau Cadogan ar gyfer y Rheilf-
fordd, amheuw'n nad dyma'r fath o
ddatblygiad sydd ganddynt mewn
golwg. Faint, tybed, o bobl lleol sydd
ag £800 i'w wario ar y lleiafswm o fil
o gyfranddaliadau y mae'n rhaid i
bob buddsoddwr eu prynnu, heb sôn
am ychwanegu atynt ar £400 y tro?
Ac o'r cyfalaf a godir, gwelwn na
fwriedir gwario ond rhan ohono ar y
rheilffordd ei hun. Oherwydd mae'r
Bwrdd Croeso wedi nodi ardal Llan-
beris fel rhywle y gellir ymelwa arni,
a Chyngor Arfon wedi dangos sêl
anghyffredin wrth ganiatau yn rhyw
gynllun twristaidd heb ystyriaeth
lawn i'r canlyniadau (hen sôn am fen-
tro adnoddau cyhoeddus ar Anghen-
fil Glynrhonwy). Yr awgrym eglur yw
y ceir cefnogaeth cyrff anetholedig
ac etholedig i unrhyw ddatblygu
twristaidd, felly nid rhyfedd fod y
cwmni'n bwriadu 'defnyddio gwed-
dill yr elw o'r rhyddhau er mwyn
helaethu, trwy gaffaeliad, ei weith-
gareddau yn maes twristiaeth, gan
fanteisio ymhellach ar allu dichonol
yr ardal ...'

Tybed sut ehangu sydd mewn
golwg? Ai prynnu mentrau sy'n bod
eisoes, ynteu creu mwy o rai
newydd? Pa ffordd bynnag, heb yr
amodau y soniwyd amdanynt, ni all
Llanberis ond dioddef pe caniateir i
reolwyr y fasnach dwristiaeth ei
meddiannu er mwyn troi'r rhan hon
yn ffair, a'r rhan acw'n amgueddfa, er
pleser dieithriaid a'u helw hwy'u
hunain. O fuddsoddi aran yn y
bwriad hwnnw, ni fuasem ond yn
rhoi'r fro a'i dyfodol yn nwylo'n fas-
nach, a honno wedi'i rheoli gan yr
ychydig — yn atgyfodi'r Faenol heb
allu cyflogaethol y deyrnas honno.
Onid oes bwriadau teilyngach o'n
harian?

Howard Huws
Llefarydd Mudiad Adfer ar Waith a
Datblygu

26 Pen y Ffridd,
Penrhos,
Bangor.

DAWNS ROBIN GOCH

Darlennais hanes dawns y Robin
Goch gan Goronwy Owen yn y rhifyn
diwethaf, a daeth â llawer o atgofion i
mi. 'Rwy'n cofio'r blychau sigaret yn
iawn!

Credaf for Gornowy wedi
camgymerid ynglŷn â rhai enwau'n
y llun. Yn eistedd ar lawr wrth ochr
Clara — rwyf i — Mary Davies, Water
Street (gynt) — ac nid Nellie Wyn.
Credaf eo fod hefyd wedi
cymgymerid Nansi Jones am Gwen
Foss (Owen gynt).

Edrychaf ymlaen am yr 'Eco' bob
mis, yn enwedig yr hen hanesion.

Mrs. Mair Roberts
7 Shepherdine Close
Lydney
Gloucester.

WYL Y BEIBL 1988

Annwyl Olygydd,
Yn 1988 fe goffeir pedwarcanm-
lwyddiant cyhoeddi Beibl William
Morgan. Fel rhagflas o ddathliadau'r
flwyddyn honno fe drefnir pererin-
dod i Lanrhaeadr-ym-Mochnant ar
ddydd Sadwrn, 21 Medi, 1985.
Yhoeddir manylion pellach yn nes at
y dyddiad.

Yn gywir,
R.GERAINT GRUFFYDD
Ysgrifennydd
Pwyllgor Dathlu Pedwarcanmlwyd-
diant Cyfieithu'r Beibl
Llyfrgell Genedlaethol Cymru,
Aberystwyth.

PWYLLGOR APEL CAPEL JOHN
HUGHES PONTROBERT

Annwyl Ddarllenwyr,
Gweithred olaf pwyllgor Apel Capel
John Hughes Pontrobert yn 1984
oedd derbyn goriad yr Hen Gapel
oddi wrth ein cyfreithiwr, wedi i'r
pwyllgor ei brynu o ddwylo preifat. Er
hynny, fe erys y gwaith mawr o godi'r
gweddill o'r swm o £50,000 a osod-
wyd fel targed i'r cynllun
adnewyddu. Gobaith y pwyllgor yw y
bydd nifer helaeth o roddion ariannol
yn dod i law yn ystod y flwyddyn
nesaf yma.

Y mae gwaith o sefydlu ymd-
driedolaeth dan law, ac fe fydd y
cynllun yn cael ei restru fel elusen yn
y dyfodol agos. Dylai lle fel hyn sydd
mor hanesyddol bwysig fod yn
ganolfan addas ac arbenig i fyfyrddod
a gweddi pan wireddir y cynlluniau.
Bydd y pererinion a ddaw i ardal John
Hughes ac Ann Griffiths yn gallu
cychwyn eu pererindod trwy gael
cyfle i ymbil, darllen a gweddi wrth
ddechrau eu taith o Bontrobert i
Ddolanog ac yna i Ddolwar Fach,
Llanfihangel a Llanfyllin.

Wrth gwrs bydd y capel yn cael ei
adnewyddu gyda hyn a'r tŷ yn cael ei
ddatblygu'n dŷ preswyl unwaith eto.
Trwy gadw'r cyfan yn y fan a'r lle y
digwyddodd pethau mawr yn eu
dydd. Pwy w'r na fydd hynny'n
gymorth i'r Gymru gyfoes brofi
diwygiad ysbrydol o fath newydd yn
ein dyddiau ni.

Apeliwn atoch felly am eich cef-
nogaeth fel cyd-Gristnogion yng
Nghymru. Mae arhom angen eich
cefnogaeth yn eich gweddiau fel yn
ymarferol. Trwy estyn cymorth yn
ariannol neu mewn unrhyw ffordd
arall. Gwerthfawrogi pob cymorth
yn fawr. Mawr yw'n diolch a bawb a
gyfranodd ac a gynorthwyodd mewn
unrhyw ffordd hyd yn hyn.

Byddaf i yn falch iawn o dderbyn eich
rhoddion yn y cyfeiriad uchod neu'r
trysorydd Mrs. Beryl Vaughan, Sych-
dyn, Llanerfyl, Trallwm, Powys.

Cofion caredig yng Nghrist,
Yn gywir,
O. Gwilym Williams (Parch)
Ysgrifennydd Gohebol

Tegfryn,
Y Foel,
Trallwm,
Powys, SY21 ONR

Mawrth 20 - Diwrnod Cenedlaethol Dim Ysmygu

Annwyl Olygydd,

Nodwyd y dyddiad hwn gan y
Cyngor Addysg lechyd gyda
chefnogaeth Adran lechyd a Nawdd
Cymdeithasol y Llywodraeth fel
diwrnod Cenedlaethol i annog pobl i
geisio rhoi'r gore i ysmygu. Caiff yr
ymgyrch gefnogaeth a
chydweithrediad nifer o fudiadau
megis ymchwil i glefyd y galon;
Tenovus; Cymdeithas y Meddygon
(BMA) a'r ymchwil i Gancr. Llwydd,
cafodd Diwrnod Dim Ysmygu argraff
aruthrol a gwyddom fod 1.3 miliwn o
ysmygwyr wedi ymateb gan geisio
neu lwyddo i drechu'r arferiad. Yn
naturiol, disgwyliwn yr un mesur o
lwyddiant eto eleni.

Er i lawer ddymuno rhoi'r gore i'r
arferiad o ysmygu, eto i gyd mae
grym arferiad yn drech na grym
ewyllys a haws dweud na gwneud yn
aml!

I helpu'r gwangalon felly gellir
deialu Caerdydd (0222) 44277 bob
bore am wythnos gan ddechrau ar
Fawrth 20 i gael cyngor ac anogaeth
gan Michael Aspel, y darlledwr.

Yr eiddoch yn gywir,
Rhiannon Evans
Swyddog Addysg lechyd.
Uned Addysg lechyd,
Bodfan,
Ysbyty Eryri,
Caernarfon.

IECHYD DA

Fel erioed mae bys Bara Caws ar byls y bobol. A dan lygad y meicrosgôp y tro yma mae'r anghenfil hwnnw, y Gwasanaeth Afiach -wps, mae'n ddrwg gen i, y Gwasanaeth Iechyd. Digon afreolaidd yw curiad calon yr hen greadur y dyddiau hyn, ac mae'n colli rhyw aelod neu'i gilydd yn ddyddiol. Yn wir, ni fu cyfnod ers sefydlu'r Wladwriaeth Les sy wedi gwireddu'r hen ddihareb Sineaid cystal 'Gwell cyfoeth a iechyd na thlodi ac afiechyd'.

Ac nid honna fydd yr unig hen jôc yn y sioe mae'n siwr. Ond fe wnawn ein gorau; er y bydd hi'n anodd, os nad ym amhosibl, gwella ar y ffars faith fyd enwog 'Codi Ysbyty Gwynedd' gan 'T.W.P. Syn a'r Swyddfa Gymreig'. Gobeithio y chwerthwch chi nes byddwch chi'n

sâl. Ond beth wnewch chi wedyn? Mynd yn breifat? Ynteu disgwyl am ddwy flynedd am wely?

Iechyd da i chi - os gallwch chi ei fforddio!

Un o aelodau cyntaf Bara Caws - Mei Jones sydd yn gyfrifol am y sgript gyda Alun Ffred yn cyfarwyddo ac mae'r actorion yn cynnwys Stewart Jones, Beryl Williams, Elliw Haf, Dewi Rhys, Judith Humphreys a Rhys Richards.

Cofiwch am berfformiadau Theatr Bara Caws o Iechyd Da.

Ni fydd perfformiad yn Y Bala. Y perfformiadau agosaf fydd Blaenau Ffestiniog, Mawrth 15; Pwllglas, Mawrth 27; Plas Maenan, Llanrwst, Mawrth 13 a Theatr Ardudwy, Harlech.

PWY YW'R MEISTR -


**DIWRNOD
CENEDLAETHOL
DIM YSMYGU
20 Mawrth 1985**

Mae 10 miliwn o bobl yng ngwledydd Prydain wedi rhoi'r gorau i ysmegu.
Beth amdanoch chi?

CHI NEU'R SIGARET?

£2,500,000,000 - dyna'r elw i'r Llywodraeth o'r dreth dybaco. Faint o hwn ddaeth o'ch poced chi?

O bob 1000 o bobl ifanc caiff:-
6 eu lladd mewn damweiniau ar y ffordd

250 eu lladd drwy ysmegu

Ydych chi'n ddiogel?

Cancer yr ysgyfaint - Mae 90 y cant o'r rhai sy'n dioddef yn ysmygwyr.

Bronceitis - Mae 95 y cant o'r rhain yn ysmygwyr.

SEFYDLU CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

Mewn cyfarfod cyhoeddus yn Ysgol Gynradd, Llanrug ar nos Lun, Chwefror 11 penderfynwyd sefydlu Cymdeithas Hanes ar gyfer ardal Eco'r Wyddfa. Nod y Gymdeithas fydd gwneud pobl y fro yn fwy ymwybodol o'i hanes cyfoethog a'r dylanwadau a'i gwnaeth yr hyn ydyw. Gwneir hyn drwy gyfrwng darlithoedd, ymweliadau a gwaith ymchwil, gyda'r pwyslais ar gael hwyl yn ogystal a dysgu. Bydd lle amlwg i weithgareddau plant hefyd. Medd Dafydd Whiteside Thomas, Trefnydd y Gymdeithas newydd 'Mae gennym raglen ddifyr a ddylai apelio'n eang. Byddwn yn cyfarfod unwaith y mis, bob trydedd nos Fercher mewn gwahanol bentrefi yn eu tro. Apeliad ar bawb i ymaelodi ar unwaith. Mae'r tâl yn rhesymol a mawr angen eich cyfraniadau i roi'r gymdeithas ar ei thraed.' Ar wahoddiad y Curadur, cynhelir cyfarfod cyntaf y Gymdeithas yn Oriel Eryri, Llanberis ar nos Fercher, 17 Ebrill, gyda'r darlithydd difyr Maldwyn Thomas, Bangor yn sgwrsio ar 'Ddiwylliant Bro'. Gall y llu a glywodd ei sgwrs ar 'Bapurau Newydd Caernarfon' dystio na cheir mo'i well.

Mae pob sigaret yn byrhau eich oes o 5 munud.
Beth yw'r ateb?
MAWRTH 20fed.

cyhoeddir rhaglen lawn y Gymdeithas yn rhifyn nesaf Eco'r Wyddfa. Os am wybod yn gynt, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Swyddogion: Cadeirydd - Arwel Jones, Pant Hywel, Penisarawun; Trysorydd - Gwynfor Roberts, Moss Bank, Llanberis; Ysgrifennydd - John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug; Trefnydd - Dafydd Whiteside Thomas, Bronnant, Llanrug; Gweddill y Pwyllgor: Ann Ifans, Sycharth, Penisarwaun; Iola Llywelyn Gruffydd, Cynfi, Deiniolen; Llew Hughes, Hyfrydle, Cwmyglo; Mary Vaughan Jones, Hafod y Coed, Waunfawr.

Cyhoeddir cerdyn aelodaeth a rhaglen gyflawn o fewn y mis. Y TAL AAELODAETH BLYNYDDOL FYDD:-

Teulu (h.y. rhieni a'u plant mewn addysg lawn amser) £5
Oedolyn mewn gwaith llawn amser £3

Henoed, myfyrwyr, disgyblion ysgol a rhai heb fod mewn waith llawn amser £1

I ymaelodi, anfoner amlen wedi ei chyfeirio a'i stampio at yr Ysgrifennydd neu'r Trysorydd gan gofio cynnwys y swm priodol. Sicciau'n daladwy i 'Gymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa' (I'r rhai a anfonodd amlen eisoes at yr ysgrifennydd, bydd yr arian yn ddigon!)

MYNNWCH Y GORAU ~~A DEWCH ATOM NI~~ AC MI DDOWN ATOCH CHI



I FETHEL, BRYNREFAIL, CWMYGLO, LLANBERIS,
NANT PERIS, TANYCOED, CEUNANT, WAUNFAWR

WAVELL (C'FON 3574) PEN CIGYDD Y FRO

LLANBERIS

Gohebydd: Mrs Jane Roberts, 'Rallt Isaf, Ffordd Capel Coch, (Llanberis 871561)

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Ionawr 31 dan arweiniad Mrs. Hannah Jones. Croesawyd yr aelodau a dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda iddynt. Rhoddwyd croeso cynnes i aelod newydd i'n plith, sef Mrs. Betty Evans.

Ein gŵr gwadd oedd y Parchedig Gwynfor Williams a chafwyd sgwrs a sleidiau ganddo ar hanes Pererindod Mary Jones i'r Bala. Cawsom noson ddiffr iawn.

Diolchwyd iddo ac i'r gwestwagedd gan Mrs. Jan Davies a Mrs. Katie Morris. Y gwestwagedd oedd Mrs. Lizzie Jones, Mrs. Mary Jackson a Mrs. Katie Griffith. Enillwyd y raffl gan Mrs. Dwynwen Roberts.

DIOLCH

Fe hoffai Alfie a Heulwen (Wilson), Waunfawrddiolch i'r teulu a ffrindiau am eu caredigrwydd tra bu Gerallt yn yr ysbyty. Diolchyn fawr.

CLWB ERYRI - Nos Wener, Chwefror 8, cafwyd noson ddiffr yng nghwmni Mr. John Norman Davies a roddodd sgwrs ar 'Y Cymro Oddicartref'. Llywydd y noson oedd Mr. Ieuan Ellis Jones. Ceir cyfarfod ychwanegol ar nos Wener, Mawrth 1 yng Ngwesty'r Gwynedd pan fydd Mr. Ifor Bowen Griffith yn ymuno â ni. Ceir trafodaeth, wedi'r sgwrs ganddo o dan lywyddiaeth Mr. John Roberts Williams, Llywydd y Clwb am eleni. Erfynnir am bresenoldeb yr oll o'r aelodau noson Gŵyl Ddewi.

DIOLCH - Dymuna Hugh M. Roberts, 14 Well Street, Llanberis ddiolch o galon i'r teulu a'r ffrindiau oll am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd pan yn dathlu ei benblwydd yn wyth deg oed ar Ionawr 19.

MARWOLAETHAU - Gwilym Jones - Yn yr ysbyty ym Mangor, ar ôl gwaelled hir a blin, yn ei gartref bu farw Gwilym Jones, Fair View yn 78 oed.

Bachgen o'r ardal ydoedd, yn un o deulu 'Ynys Wen'. Pan yn ei ieuchyd, roedd yn gefnogwr ffyddlon iawn i dîm Pel-droed yr ardal, ac roedd yn hwyliog gyda phawb bob amser. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyr a'i briod a'i ferch, ei frawd a'i chwiorydd a'r teuluoedd i gyd.

Owen Davies - Yn Ysbyty Gwynedd ym Mangor bu farw Owen Davies, Stryd yr Wyddfa. Nid oedd ond rhyw wythnos neu ddwy ers pan ddaeth adref ar ôl ysbaid yn yr ysbyty ond cafodd ei daro yn wael yr eildro a bu rhaid ei symud i mewn i'r ysbyty. Bachgen o Gwm-y-Glo ydoedd 'Now' fel yr adwaenai pawb ef, ond wedi

cartrefu yn y pentref er ei briodas. Aelodau ffyddlon yn Nant Padarn ydoedd y teulu. Cydymdeimlir a'r weddw, y mab a'r ferch, ei frawd a'i chwiorydd a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

RHEDWYR - Yn ras redeg Y Borth, daeth Paul a Linda Prydderch yn gyntaf yn y ras dan 12 oed, a Julie Wyn Byliss yn 3ydd. Cyflwynwyd y medalau iddynt gan yr Aelod Seneddol Keith Best. Daeth Paul a Linda yn gyntaf yn Ras Morfa Bychan ar ddiwedd Ionawr, a'u chwaer Nicola yn ail dan 17 oed.

YN GWELLA - Da iawn deall for amryw o'r pentrefwyr yn gwella, rhai yn yr ysbyty, eraill wedi dychwelyd o'r ysbyty, a rhai yn eu cartrefi. Cyfeiriwn at Mrs. Jenie Maxwell, Stryd Warden; Mr. Brynley Roberts, Stryd Goodman; Mr. Meyrun Williams, Stryd y Dwr; Mr. Len Thomas, Lon Tŷ Du; Mr. William Hughes, Dol Eilian; Mr. Robert Hughes, Ffordd Padarn; Mrs. Edna May Jones, Maes Padarn; Miss Bessie Jones, Cambrian; Mrs. A.M. Jones, Manllwyd; Mrs. Delia Parry, Plas Tirion; Mrs. Eryl Hughes, 11 Teras y Cae; Mrs. Rebecca Williams, Gwenallt; Mr. Eifion Evans, Cynlas.

LLONGYFARCHIADAU - Er ei bod wedi gadael yr ardal ac yn byw yn awr ym Mhwlheli, un o blant yr ardal i bawb ohonom yw lola, merch Mr. a Mrs. Parry, Stryd Newton gynt, ond yn awr yn byw yn Bontnewydd. Llongyfarchiadau arebnig iawn iddi hi a'i phriod, Ellis Wyn, ar enedigaeth mewch fach, Sioned Wyn ar Ionawr 7. Hapus yw deall hefyd fod ei thad, Morris Parry yn gwella ar ôl ei salwch blin.

CYDYMDEIMLAD - Estynir cydymdeimlad a'r rhai a ganlyn o golli annwyliaid:- Mrs. W.S. Owen, Plastirion Bungalows sydd wedi colli ei chwaer, Mrs. Evelyn Faulkener a fu'n byw yng Nghaernarfon.

Mrs. Gwilym Jones, 88 Maes Padarn wedi colli ei thad, William Edwin Roberts o Benygroes.

Mr. Dewi Jones, Ffordd Padarn, yntau wedi colli ei fam.

Mrs. Jean Parry, Mafeking, wedi colli ei mam yng Nghaernarfon.

Mrs. Jones, Bryn Pais, wedi colli ei phriod.

UNDEB Y MAMAU - Cyfarfu aelodau o Undeb y Mamau Eglwys Sant Peris a Sant padarn ar Ionawr 15 dan arweiniad y Parch Alun Hawkins. Mwynhawyd yn fawr iawn atgofion bore oes gan Mrs. Marian Roberts. Roedd ei haraith yn dod a llawer o atgofion doniol a melys iawn i amryw o'r aelodau. Diolchwyd yn gynnes iawn iddi gan y Llywydd. Cyfeiriwyd

at y rhai hynny oedd yn wael, a dymunwyd adferiad llwyr yn fuan iddynt. Cydymdeimlwyd a Mrs. D.S. Owen a Mrs. Edna Jones yn eu profedigaeth. Rhoddwyd y tê gan Mrs. D. Hughes, Mrs. Betty Humphreys a Mrs. Glyn Williams. Diolchodd Mrs. W.H. Parry iddynt am y lluniaeth.

Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror ar y 5ed o'r mis gyda'r Parch Alun Hawkins yn llywyddu. Estynnodd groeso cynnes iawn i Mrs. Victor Jones ac hefyd diolchodd iddi am ei haraith ddiffr ar y cyfnewid mawr sydd wedi digwydd ynglŷn â gwaith yr eglwys a'r unigolyn, ac hefyd y cysylltiad rhwng yr eglwys heddiw a gwledydd y byd.

Y swyddogion am 1985 yw: Ysgrifenyddes Cofrestru - Mrs. Betty Humphreys; Ysgrifenyddes - Mrs. D. Hughes; Trysoryddes - Mrs. Glyn Williams

Cyflwynwyd adroddiadau'r flwyddyn gan y trysorydd a'r ysgrifenyddes a diolchwyd iddynt am eu manylrwydd a'u cywirdeb. Estynnwyd cydymdeimlad a Mrs. Jennie Roberts, Stryd Goodman ar golli ei phriod.

Rhoddwyd y tê gan Mrs. Muriel Morris, Mrs. Kathleen Williams, a Mrs. Audrey Davies a diolchwyd iddynt gan Mrs. K. Parry gyda Mrs. Pugh yn eilio.

CERDDOROL - Llongyfarchiadau i'r ddwy chwaer Lisa Jane Runkin a Hannah Runkin ar eu llwyddiant yn arholiadau canu'r piano - yn llwyddo gyda anrhydedd.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL - Cyfarfu'r Gymdeithas yn Ffestri Capel Coch, nos Iau, Chwefror 5ed dan lywyddiaeth Mr. Vernon Hughes. Y SIARADWR GWADD OEDD Mr. O. Evans, Llanrug. Dangoswyd sleidiau gyda chymorth Mrs. Davies. Mwynhawyd y noson yn fawr iawn. Fe gynhelir y Cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Gwynedd ar Fawrth 7ed.

CYDYMDEIMLO - Cydymdeimlwn â Mrs. Jean Parry, Mafeking a'r teulu ar farwolaeth ei thad yng Nghaernarfon yn ddiweddar.

YMDDEOLIAD - Y mis yma bydd Mr. Hugh C. Owen, 12 Dol Eilian yn ymddeol yn 70 oed o'r Frigad Ambiwylans Sant Ioan. Ymaelododd yn 1938, bron i hanner canrif yn ôl. Bu yn yr Ail Ryfel Byd, yna am yr holl flynyddoedd wedi dychwelyd gartref bu yn fyddlon iawn i'r Adran. Am flynyddoedd bu'n dysgu'r Cadlanciau a gwnaeth waith ardderchog â hwy. Fel gwerthfawrogiad o'i lafur di-flino cyflwynodd yr Adran oriawr iddo. Dymuna'r aelodau adferiad iechyd buan iddo a blynyddoedd o hapusrwydd.

PENBLWYDD - Ein llongyfarchiadau i Mrs. Esther Clarke, 9 Blaen y Ddôl ar ddathlu ei phen blwydd yn 87 oed.

Dymunwn y cewch ddathlu sawl blwyddyn hapus eto.

DIOLCH - Dymuna Mrs. Megan Lloyd Williams, 7 Stryd y Dŵr ddiolch i bawb am bob caredigrwydd a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd.

CYFEILLION Y CLINIC - Nos Iau, Chwefror 7, daeth amryw o aelodau y 'Women's Federation' i'r Clinic lleol pryd y cawsant weld yr offer a brynwyd gyda'r rhodd anrhydeddus o £500 a gyflwynwyd ganddynt i Gyfeillion y Clinic. Eglurodd Dr. Dan Hughes bwrpas y gwahanol offer.

Mae'r Clinic hefyd yn ddiweddar wedi derbyn £59.50 er côf am Miss Margaret Jones, Islyn, trwy law Clwb yr Henoed. Bwriedir prynu rhagor o offer gyda'r arian yma. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch yn fawr iawn am y rhoddion hael hyn ac i'r rhai eraill a gyfrannodd eisoes.

NEWYDDION O YSGOL DOLBADARN

MIN Y GAFAF - Fel llawer ysgol arall teimlodd Ysgol Dolbadarn frathiad llym dymor yr hirlwm. Rhewodd toiledau'r genethod a'r babanod a bu'n rhaid atal y babanod rhag dod i'r ysgol am wythnos. Ond llwyddwyd i gadw'r ysgol ar agor i blant yr Adran Iau. Dymuna'r Prifathro ddatgan ei werthfawrogiad i bawb a fu o gymorth iddo yn ystod y dyddiau anodd hyn.

PUNT Y PEN - Yn ystod yr ymgyrch uchod dan nawdd yr Urdd casglwyd y swm anrhydeddus o £216 yn yr ysgol. Diolcha Mr. Teifion Thomas, Arweinydd yr Urdd am y genfogaeth a gaed eleni.

Y PIBYDD BRITH - Ar for Llun, Chwefror 11 aeth plant y Dosbarth Meithrin a Dosbarth 1 yda'u hathrawon i'r Coleg Technegol ym Mangor i weld y pantomeim, Y Pibydd Brith. Perfformiwyd y pantomeim gan fyfyrwyr y coleg. Mwynhaodd y plant eu hunain yn fawr. Llongyfarchiadau i fyfyrwyr y coleg am berfformiad diddorol a graenus.

THEATR MEWN ADDYSG GWYNEDD - Ar ddydd Iau, Chwefror 7, bu'r cwmni uchod yn perfformio yn yr ysgol. y tro hwn perfformiwyd yn y bore i blant Safon 4, ac yn y prynhawn i blant Safon 3. Diddorol oedd sylwi fel y defnyddid y plant yn ystod y perfformiadau. Caed diwrnod buddiol iawn gan y Cwmni a mawr edrychir ymlaen i'w croesawu i'r ysgol eto'n fuan i berfformio i blant Adran y Babanod.

YMGYRCH LLYFRAU CYMRAEG 1985 - Ers blynyddoedd bellach mae'r ysgol wedi cymryd rhan yn yr ymgyrch uchod, ac wedi bod yn llwyddiannus iawn yn yr ymdrech i werthu Llyfrau Cymraeg. Bwriedir cynnal ymgyrch eto eleni dan arweiniad Mrs. Jane Roberts. Diolchwn ymlaen llaw i drigolion Llanberis a'r Nant am eu cefnogaeth

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Bistro

45 Stryd Fawr LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871 278

(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro a mwy o le i'w fwyta

Llanberis Parhad

arferol. Bydd y plant yn dod o amgylch y pentrefi yn ystod y mis gyda'r catalogau.

GALWAD I GLYNLLIFON - Yn ystod yr wythnos olaf yn Ionawr aeth 14 o blant o Safon 4 i aros i Goleg Glynllifon i ddysgu rhai pynciau diddorol iawn yn amgylchedd delfrydol y plasty a'r 'stad. Yn ôl eu tystiolaeth, yr oedd y plantedi mwynhau eu hunain yn fawr gan brofi a dysgu un egwyddor addysgol bwysig, sef sut i fyw mewn cymdeithas â dieithriaid eraill.

CASET Y CAROLAU - Er i ni gefnu ar y Nadolig ers rhai wythnosau bellach, eto, er hyn, y mae Miss Marion Davies yn dal i dderbyn archebion am gasetiau. Caed un archeb arbennig iawn o'r Llyfrgell Genedlaethol Aberystwyth. Os am gaset o naws odidog, brysiwch i anfon i Miss Davies, nid oes ond ychydig ar ôl erbyn hyn.

PELDROED - Oherwydd y tywydd garw methwyd a chwarae yr un gêm y tymor hwn.

PELRWYD - Yn y rownd gyntaf yng Nghystadleuaeth Pelrwyd Ysgolion Gwynedd a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Arfon, chwaraewyd pedair gêm. Enillwyd dwy gêm yn erbyn Borth y Gest a Bontnewydd, colli'n erbyn Llanrug, a gêm gyfartal gyda'r Hendre. Enillwyd yr dwy gêm yng Nghystadleuaeth yr Urdd yn erbyn Ysgol Llanllechid ac Ysgol Hiraël, Bangor.

NOFIO - Ar brynhawn dydd Sadwrn, Chwefror 16, aeth rhai plant o'r Adran Gynradd i Gala Nofio'r Urdd, Cylch Arfon-Eryri ym Mhwl niofio Bangor. Bu Catherine Grey-Williams yn ail yn ras 50m Broga i enethod dan 12 oed,

ond yn gyntaf, ac felly'n cynrychioli'r cylch yn Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd, yn y ras Pili Pala dros 50m i enethod dan 12 oed. Dymunwn pob llwyddiant i Catherine yng Nghaerdydd a llyngfarchwn hi ar ei llwyddiant ym Mangor. Diolch hefyd i bob plentyn arall a fu'n cystadlu ym Mangor, am ddangos diddordeb.

HANNER CANMLWYDDIANT YR YSGOL - Yn y flwyddyn 1988 bydd yr ysgol yn dathlu ei phenblwydd yn hanner cant oed. Bwriada y Prifathro olrhain hanes addysg yn Llanberis a'r cylch a chyhoeddi pamffledyn bychan yn ystod cyfnod y dathlu. Byddai'r Prifathro yn ddiolchgar o dderbyn unrhyw ddogfen, erthygl, gwybodaeth, a hen ddarluniau i'w helpu â'r gwaith hwn.

DYMUNIADAU DA - Deallwn fod Mr. Owen Humphreys, Gwastadnant, Nant Peris yn myned i dderbyn triniaeth lawfeddygol yn y dyfodol agos. Y mae Mr. Humphreys yn aelod ffyddlon a gwerthfawr o Lywodraethwyr yr Ysgol. Ein dymuniad ni oll yw i Mr. Humphreys dderbyn triniaeth lwyddiannus ac adferiad llwyr a buan

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD

BANGOR
354646

PIBONWY AR LAN PADARN



GWYNETH ROBERTS

(Siop E. Wilson Hughes gynt)

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

AGWEDDAU AR HANES LLEOL CAERNARFON

Ddydd Sadwrn, Mawrth 16, dan nawdd Adran Efrydiau Allanol, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru mewn cyd-weithrediad â Gwasanaeth Archifau Gwynedd, cynhelir ysgol undydd ar 'Agweddau ar hanes lleol Caernarfon' yn Siambr Newydd y Cyngor yn Stryd y Jêl.

Bydd sesiwn y bore yn dechrau am

9.30 - gyda darlith gan Mr. J.R.Ll. Toleman (deintydd wedi ymddeol a hanesydd lleol) ar 'The Clock Makers of Old Caernarfon'.

11.00 - Dr. Lewis Lloyd fydd yn trafod 'Crime and Punishment in Caernarfon in the 19th Century'.

Yna **cyn cinio** ceir darlith gan Mr. Ken Birch, darlithydd mewn Astudiaethau'r Hedlu, Caer a Gogledd Cymru ar 'The Police and the Bethesda Riots'.

Saesneg fydd iaith sesiwn y bore a Chymraeg fydd y cyfrwng yn y prynhawn.

2.30 - bydd Maldwyn Thomas o Ysgol Addysg Prifysgol Bangor yn darlithio ar 'Pobl y Wasg yng Nghaernarfon'.

3.30 - Julia Latham o'r Gwasanaeth Archifau fydd yn darlithio ar 'Addysg yng Nghaernarfon'.

Ar ôl trafodaeth fer bydd y sesiwn yn gorffen am tua 4.45 o'r gloch.

Gwledd yn wir i unrhyw un sy'n ymddiddori mewn hanes lleol - a gellir cofrestru ar gyfer y ddwy sesiwn am y ffi o £2 - sy'n cynnwys coffi yn y bore. Dylai pawb sy'n bwriadu bod yn bresennol gysylltu a'r Ysgrifennydd, Adran Efrydiau Allanol, Coleg y Brifysgol, Bangor erbyn dydd Llun, Mawrth 11.

NEWYN YN ETHIOPIA



NID YW YN RHY HWYR I
ACHUB MILOEDD O BLANT
RHAG NEWYN.

BYDD EICH RHODD YN EIN
GALLUOGI I BARHAU I
DDANFON BWD,
MEDDYGINIAETH, CYSGOD,
MEDDYGON A NYRSIS I
ARDALOEDD YN YR AFFRIG LLE
MAE NEWYN.

RHODDIR EICH CYFRANIAD YN
HOLLOL I'R PLANT. NI CHEDWIR
YN ÔL DDIM TUAG AT GOSTIAU
GWEINYDDOL.

CYFRANNWCH YN HAEL, OS GWELWCH FOD YN DDA.

Danfonwch eich cyfraniad i'r
cyfeiriad isod
(NID OES ANGEN STAMP)

**CRONFA ACHUB Y PLANT, Adran. 5020098
FREEPOST, LLUNDAIN SE1 8BR.**

Amgaeaf £ neu dyledwch fy rhif ACCESS/

BARCLAYCARD

ENW

CYFEIRIAD

LLOFNOD

Amgaeuoch amlen stampiedig os bydd eisiau derbynneb.

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

PRIODAS

Dydd Sadwrn, Ionawr 26 yn Eglwys 'All Saints', Fawley, ger Southampton priodwyd Geraint, mab hynaf Mr. a Mrs. J. Rowlands, Llys Forgan, Llanrug â Linda, merch hynaf Mr. a Mrs. R. Davidson, 8 Heather Road, Fawley. Gweinyddwyd gan y Parch Christopher Rich, Rhiethor Fawley a Mr. B. Bartlett wrth yr organ. Y gwas oedd Mr. Allan Wallace, cyfaill y priodfab a'r morwynion oedd Christine Lane, chwaer y briodferch, a Jenny Meecher (ffrind).

Cynhaliwyd y wledd yng Ngwesty'r 'Falcon' gyda 60 o westeion yn bresennol.

Treuliwyd y mis mael yn Bournemouth. Bydd Geraint yn treulio y chwe mis nesaf yn Ynysoedd y Falklands, cyn ymgartrefu ym Market Drayton. Dymuna y ddau deulu ddiolch o galon am yr holl anrhegion a'r dymuniadau da y maent wedi eu derbyn.

MARW - Ar Chwefror 19 bu farw'n dawel yn ei gwsg, Mr. Robert D. Williams, Y Berllan. Yr oedd yn frodor o Rostryfan a bu'n ffermio yn y Gadlys am flynyddoedd cyn ymddeol a dod i fyw i Lanrug. Collodd Mrs. Williams dair blynedd yn ôl.

Gedy fab David a merch-yng-nghyfraith Eirlys, ac wyres Carolyn ac Wyr Dylan, sydd bellach yn byw yn nhai Talybont. Cydymdeimlir a'r teulu i gyd yn eu colled. Claddwyd yng Nghefnaes, Rhostryfan ar Chwefror 22.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL - Nos Fawrth 19, gyda Mr. J.L.I. Williams, Bod Fir yn llywyddu, cafwyd noson ddifyr yng nghwmni 'Parti Clychau'r Grug' dan arweiniad Mrs. Glenys Griffith, Bethel, gyda Miss Lowri Prys Roberts yn cyfeilio.

Cafwyd eitemau amrywiol gan y parti, yn cynnwys unawdau a sgets gan Mrs. Ann Evans, Mrs. Iona Jones a Mrs. Jean Roberts.

Talwyd diolch iddynt am noson arbennig iawn gan Mrs. Ceridwen Williams, Gwelfryn.

DAMWAIN - Drwg gennym am yr anffawd ddaeth i ran Mrs. Naomi Griffith, 6 Bro Rhyddallt. Syrthiodd a thorri ei choes, aed a hi i Ysbyty Gwynedd.

Adferiad buan fo iddi.

MERCHED Y WAWR - Cynhaliwyd cyfarfod o Ferched y Wawr yn Festri Capel Mawr ar Chwefror 12.

Daeth Mrs. Pat Jones, Brynrefail atom i esbonio dirgelion y greft o 'Macrame'. Gan ei bod yn noson

eithriadol o oer, rhyw ugain o'r aelodau a ddaeth ynghyd, ond cafwyd noson ddiddorol a phrysur iawn, gan fod pawb wedi gwneud ymdrech i ddysgu elfennau'r grefft. Diolchwyd i Mrs. Jones gan Mrs. Jean Davies.

Mrs. Jennie Williams, Mrs. Dorothy Williams, Mrs. W.A. Jones, Mrs. Margaret Jones a Mrs. Joyce Jones oedd yn gyfrifol am y baned a diolchwyd iddynt hwy gan Mrs. Megan Roberts.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yng Ngwesty'r Foelas ar Fawrth 12, i ddathlu Gŵyl Ddewi a degfed penblwydd y gangen.

A wnaiff pawb sydd yn bwriadu dod i'r swper roi eu henwau i'r ysgrifennydd erbyn Mawrth 4.

DIOLCH - Gair o ddiolch oddi wrth Bet, Lyndale i'r teulu i gyd, cymdogion a ffrindiau am yr anrhegion a'r lluo o gardiau a dderbyniodd ganddynt ar achlysur ei phenblwydd yn ddiweddar.

DIOLCH - Dymuna Anti Ceti (Mrs. Katie Davies, Bro Rhyddallt, Llanrug) ddiolch yn fawr i blant yr ysgol, eu rhieni, staff y gegin, y Prifathro a'r athrawon am eu caredigrwydd a'r hapusrwydd tra bu'n aelod o staff y gegin yr ysgol gynradd, Llanrug.

SEINDORF LLANRUG - Nos Fercher, Chwefror 13, cynhaliwyd Cyngerdd gan y Seindorf yn Ysgol Brynrefail. Cymerwyd rhan gan Hogia Llandegai, Côr Ysgol Gynradd, Llanrug ac yn gwneud eu hymwelid cyntaf ar y llwyfan roedd y Seindorf lau a roddodd berfformiad da iawn. Hefyd rhoddwyd eu perfformiad cyntaf gan y Pedwarawd lau o dan arweiniad Mr. Glyn Williams.

Ar ddydd Sadwrn 16 cymerodd rhai aelodau o'r Seindorf ran ym Mhencampwriaeth Unawd a Phedwarawd, Cymdeithas Seindorf Arian Gogledd Cymru yn Ysgol Eithinog, Bangor. Daeth y pedwarawd dan 12 oed yn gyntaf; yr aelodau oedd Kevin Tame, Bryn Jones, Phillip Owen a Susie Jacobs. Hefyd cafodd Kevin Tame drydydd yn y gystadleuaeth melodi araf o dan 12 oed.

Cynhaliwyd 'Ffair Sborion' yn 'Feed my Lambs', Caernarfon ar ddydd Sadwrn 23 o Chwefror.

DIOLCH - Dymuna Mrs. L. Jones, 15 Hafan Elan ddiolch am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR



Athrawon a phlant Ysgol Sul, Pontrythallt yn ffarfelio ag un o'u hathrawesau - Mrs. Nesta Pritchard (ail o'r chwith, rhes gefn) ar ei hymadawiad i fyw'n Y Rhyf

RHODD EGLWYS M.C. LLANRUG I 'FRENHINES Y PULPUD'

Derbyniodd Mrs. Mary Lloyd Williams, a adwaenir yn well fel Mari Lewis yr Herald Gymraeg, rôdd o Lyfr Emynau yn ystod yr oedfa fore Sul, Chwefror 17, gan Eglwys M.C. Llanrug, fel arwydd o'u gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth gwirfoddol i'r Eglwys yn y pulpud am lawer o flynyddoedd. Mr. Oswald Davies, Rhyd y Delyn (blaenor) a Mr. John Wyn Owen, Llain y Delyn (ysgrifennydd yr eglwys) oedd yn cyflwyno'r rhodd. Yr oedd cynulleidfadau dda yn bresennol yn yr oedfaon fore a hwyr a Mrs. Williams yn pregethu.

Ar gais arbennig ac fel teyrnged i Mrs. Williams, gofynnodd Mr. Oswald Davies (y Llywydd) i'r gynulleidfadau ganu Emyr 432 o Lyfr Methodistiaid Calfinaidd a'r Wesleyaid:

Fy ngorchwyl yn y byd,
Yw gogoneddu Duw,
A gwlio dros fy enaid drud
Yn ddiwyd tra fwyf byw.'

Er fod Mrs. Williams dros 82 mlwydd oed, y mae yn dal i bregethu'r Efengyl bob Sul ac wedi gwasanaethu yn y pulpud erbyn hyn ers dros drigain mlynedd. Gellir felly ei galw yn Frenhines y Pulpud. Ganwyd a magwyd Mrs. Williams yn Eglwys M.C. Llanrug a hi yw'r olaf o'r fintai a ddaeth o gapel Llanrug i ffurfio Capel Pontrythallt.

Dymunodd Mr. Davies a Mr. Owen yn dda iddi yn y dyfodol, a gobeithio y caiff fyw am flynyddoedd eto i wneud y gwaith sydd wrth ei bodd.

Ar ôl yr oedfa fe dynnwyd llun gan un o aelodau'r Eglwys.

Diolchodd Mrs. Williams yn gynnes iawn i bawb.



Yn eisiau ar GÔR MEIBION CAERNARFON BASWYR

(Bas 1 a Bas 2)

Ymholiadau: Glyn Robinson, Rhyd, Rhos bodrual, Caernarfon, Ffôn 3369

SIMNEIAU GWael? CRACIAU? MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSAFLUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

M. ROWLANDS MONUMENTAL MASONS

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2898

(Sefydlwyd ers dros 35 mlynedd)

Crefftwaith llaw, e.e., Old English/Gothic gan un â thros 32 o flynyddoedd o brofiad

Cerrig newydd a gwaith adnewyddu:
dim ots pa mor bell

Stoc helaeth o'r cerrig gorau:
dyfynbris am ddim

AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS

CYNGERDD SEINDORF ARIAN LLANRUG



Seindorf Arian Llanrug gyda'u harweinydd Frank Boylin ar lwyfan neuadd Ysgol Brynrefail yn ddiweddar.



— a Seindorf y dyfodol - Band leuenctid y pentref.



Hogia Llandegai - yn dal i ddenu cynulleidfia ac yr un mor boblogaidd ag erioed.



— a'r diddanwyr ifanc - Côr Ysgol Gynradd y pentref.

RHAI O GYSTADLEUTHAU EISTEDDFOD LLANRUG

Y GADAIR: Cerdd gaeth neu rydd heb fod dros 100 llinell - 'Y Proffwyd' neu 'Proffwydi'.

Y FEDAL RYDDIAITH: Tair ysgrif - 'Gwynt', 'Glaw' a 'Heulwen'.

FFOTOGRAFFIAETH: Dan 16 oed - 'Prysurdeb'

Agored - 3 llun o olygfeydd amrywiol

ARLUNIO: I bob oed - 'Ffrind', 'Bywyd Gwylt', 'Cartŵn', 'Ffair' neu 'Syrkas'.

O BANTRI BETH



Cacen Almond
4 owns menyyn
5 owns siwgr castor
3 ŵy

3 owns almonds
1 a hanner owns o flawd plaen
2-3 dropyn o 'almond essence'
tun sandwich 7 modfedd.
Irwch y tun a rhoi papur sidan ar ei waelod. Gosod y popty ar 350 gradd F (Marc 4 nwy).
Meddalu'r menyyn, ychwanegu'r siwgr fesul llwy fwrdd - a chymysgu'n dda. Ychwanegu'r wyau - un ar y tro - a tua thraean o'r almonds gyda phob ŵy. Curo'n dda. Ychwanegu'r blawd a'r 'almond essence'. Rhoi'r cymysgedd yn y tun. Ar ôl coginio, toddi jam mefus neu fafon ar y gacen ac ychwanegu cnau coco. Blasus iawn.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!
Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus
Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

YSGOL YRRU
OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol



PRITCHARD
43 glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR

E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

STORFA

Mace

John a Roberta
Griffith
Sgwâr
Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael o fwydydd,
llysiau a diodydd

Archebion at eich drws
Ffilmiau fideo £1 y noson

ATGOFION CYNNAR AM ARDAL Y WAENFAWR

(gan John Owen Harvey, Llangefni)

Y cof cyntaf gennyf yw croesi'r ffordd yn llaw mam a mynd i hel coed tân i gyfeiriad Plas Glynafon. Roedd gan bawb le tân agored, a dyna un o'r pethau mwya pleserus gan lawer oedd casglu digon o frigau mân a chwythwyd i lawr.

Gan fod ein tŷ ni gefn yn gefn â chae chwarae yr Ysgol ddyddiol, cefais fynd yn ifanc iawn i gymysgu a'r plant. Yn ddiweddarach y peth naturiol oedd mynd i mewn gyda'r plant a chael eistedd yn y dosbarth lleiaf. Miss Williams oedd yr athrawes a hi oedd yn edrych ar ôl y tri gradd ifanc. Amser chwarae byddai mam yn galw arnaf o waelod yr ardd a chawn ŵy wedi ei droi mewn llefrith. Mae'n siwr mai fi oedd yr unig un yn yr ysgol i gael y fath beth mor reolaidd. Hefyd byddwn yn mynd i dŷ drws nesa, sef cartref Jenny a Katie Jones, a phob amser yn cael brechdan siwgr; dyna dda oedd hi.

Ar 1 mynd i'r gwely un noson cofiaf wrth chwarae a nedio i mi lyncu pin ddiogel. Dychryn wnaeth mam a finnau a chofiaf iddi redeg ar unwaith i dŷ y meddyg. Daeth yn ôl, ond roeddwn wedi rhedeg i'w chyfarfod heb ddim am fy nhraed ac yn y dillad nos, cymaint oedd fy nychryn. Y neges oddi wrth y meddyg oedd fy mod i fwyta swper mawr cyn mynd i gysgu. Rhaid oedd i mam druan fynd ati i wneud pwdin afal wedi ei ferwi ar y tân, pwdin mewn clwt oedd y pwdin arbennig hwnnw. Dyna swper rhyfedd, ond coeliwch fi fe wnaeth y tric - cawsom y bin yn ôl, ac wrth lwc yr oedd hi wedi cau.

Tro arall cefais bigin yn y glust a dyna mam yn cael joi o faco shag gan Mr. William Roberts, dyn trwsio a gwerthu organ, harmonium a phiano ail-law, a rhoi y baco yn fy nghlust gan ei ddal i mewn a hosan wllan. Fe ddaeth y glust yn well yn sydyn, a dyna y math o feddyginiaeth cartref a gymrai le.

Llyncwyd llawer o asiffeta, wermod lwyd a dwr senna heb sôn am Indian Brandy, Tincture Rhubarb, a Spirit Nitre a phob math o foddion hawdd eu cael o siop y pentref. Er hynny, dal i besychu wnaï llawer o'r dynion fu yn gweithio gyda'r lechen las a llawer i wely yn Ysbyty Llangefni, Bryn Seiont a Llangwyfan yn cael eu llenwi gan ddynion a merched ifanc, gwelw eu gwedd o'r pentrefi ger Afon Gwyrfa.

Deuai dynes Saesneg i'r ysgol bob blwyddyn i'n dysgu ni y plant am y diciâu neu y term newydd, 'T.B.' Dalai i fyny afal coch, oren neu rhyw ffrwyth

arall, wedyn ŵy, a dweud fod eisiau bwyta llawer ohonynt er mwyn cadw yn iach. Cysgu hefyd bob nos gyda'r ffenest yn agored a cherdded digon yn yr awyr iach.

Dynes arall a ddeuai yn rheolaidd i edrych am ein ieuchyd mewn ffordd wahanol oedd Miss Bishop. Cofiaf fod ganddi ddillad cynnes, haf neu aeaf, gyda sgert frethyn, jwmpwr werdd, sgidiau cryf o liw llwyd a chlump o chwil arian yn hongian o'i gwddf ar ddarn o linyn cryf. Dysgu ymarfer corff a mabolgampau i ysgolion yn y Sir oedd ei gwaith.

Byd hapus oedd hi arnaf gyda hogiau eraill yn byw yn yr un stryd gyda llefydd hwylus ganddon i chwarae pêl, yn ogystal a'r ffordd fawr ar ei hyd. Dim hogiau yn unig chwaith, llawer o enethod at yr un oed a ni yn cyd-chwarae, rownders, taflu pêl dros ben un yn y canol, scipio, chwarae london, chwarae gyda top gan liwio y copa gyda sialc bob lliw, a llawer o chwaraeon eraill. Y ni yr hogiau fyddai yn gwneud pibau, bwa saeth, taflar, ac adeiladu ein barcud allan o weiran ymbarel a phapus llwyd - a phob bachgen yn ceisio y gynffon bapur hiraf. Ni chostiodd yr un peth fawr ddim gan ein bod wedi dysgu, bron iawn yn reddfod, i wneud yr oll ein hunain. Toedd hogyn heb gyllell poced bron iawn ddim yn werth ei alw yn ffrind.

Yn fuan daeth y cyfle i fynd i'r Ysgol Sul ac i'r 'Band of hope' yn Festri Capel Croes-y-Waun. Yno yn llawn egni a chariad at y petha yr oedd Mrs. James Jones, mam y meddyg enwog - Emyr. 'Roedd

hi, gwedww, ein cyn weinidog, yn dysgu y plant i ganu caneuon o 'Murmur-y-Llanw', ac emynau fel Calon Lân a Milwr Bychan ond 'Dwr, dwr a'n Ceidw'n lach' oedd y ffefryn yn cael ei chanu fwy nac unwaith mewn noson.

Wrth ddod allan o'r capel un diwrnod poeth yn yr haf cofiaf y pen blaenor Daniel Hughes yn troi atom ni fechgyn gan ddweud 'Edrychwch yma hogia, arnaf fi, peidiwch yn enw'r nefoedd ag edrych arnyn nhw'. Cyfeirio yr oedd at enethod ifanc oedd yn mynd heibio ar y pryd. Saeson, mae'n siwr, ar gefn beics - ac yn gwisgo dillad cwta iawn.

Daeth trydan i'r pentref pan oeddwn yn fychan. Cofiaf weld y polion cario'r gwifrau yn cael eu codi am y tro cyntaf. Cawsom ambell olau ar y ffordd ond am hir iawn lampau olew oleuai lawer o'r cartrefi, ac os am ddarllen yn y gwely rhaid oedd cofio mynd a channwyll i fyny y grisiau. Cyn i'r trydan gyraedd - gyda lantern neu gannwyll mewn pot jam y byddem ni blant yn mynd allan gyda'r nos i'r festri. Lampau olew oedd yn goleuo'r capeli ar wahan i'r Capel Mawr. 'Roedd yno beiriant trydan mewn ystafell o dan y ddaear. Cofiaf fod yn bresenol mewn Eisteddfod yn y Capel a methodd y peiriant a dyna'r golau i gyd yn mynd i lawr yn raddol a'r dyn edrychai ar ôl y golau yn rhedeg allan i gael pethau i redeg yn iawn. Pan ddaeth y golau yn ôl, dyna y gynulleidfa yn curo dwylaw, a'r eisteddfod yn mynd yn ei blaen.

Amgylchiad mawr yn ein tŷ ni oedd cael piano newydd o Lerpwl, a daeth Elaine merch yr

heddgeidwad i'w chwarae am y tro cyntaf. Rhoddodd mam gân, cofiaf yn iawn 'Chwifio'r Cadach Gwyn' ac Elaine yn cyfeillio iddi. Yn wir yr oedd gan mam lais Soprano da, toedd hi wedi cael gwersi canu ac yn perthyn i gôr cymysg Harri Bach.

Ar ôl derbyn y piano rhaid oedd mynd bob bore Sadwrn i gael gwersi chwarae gan Blodwen Oldfield yn y dref. Cystadlu wnes ar y piano mewn llawer Eisteddfod yn y 'Waun, Llanrug, Cwm-y-Glo a Bethel. Yna mynd ati i ddysgu canu gyda David Trefor, arweinydd y Seindorf Arian, a chystadlu yn lleol gan fynd o'r diwedd ar lwyfan yr Urdd yn y Pafiliwn yn nhref Caernarfon. Y darn i'w ganu oedd 'Rhosyn Rhudd' a dwad wnes yn ail i Tom Dulyn Thomas o adran Nebo gen Penygroes, ac wrth wneud hynny ennill ruban i'w osod ar Faner Adran yr Urdd y Waunfawr.

Daeth diwrnod i mi gael mynd gyda fy mam a fy modryb am wibdaith yr Ysgol Sul i'r Bermo. Dwy charabang wen gafwyd - nid oes y fath beth i'w gweld hediwr ar ein ffyrdd prysur. Cerbyd mawr, hir ydoedd gyda'r seti yn rhedeg ar draws o un ochr i'r llall. Dau ddrws i bob sêd a stepan uchel yn rhedeg hyd yr ochrau er mwyn dringo i fyny. Tô canvas ar math o ffram goed caled wnaï lithro i'r cefn yn gymharol ddestlus ar silff tu cefn i'r sêd ddwytha os y byddai'r tywydd yn braf.

Y tro yma sut bynnag, glaw trwm gawsom ar hyd y ffordd, a chan mai yn y sêd flaen wrth ochor y dreifar yr eisteddem rhaid oedd i mam ddal ei ymbarel ar hyd y ffordd i gadw y dyn pwysicaf yn sych. Nid oedd math o gysgod o'r ochor dim ond uwch ein pennau. Er y glaw, gwnaethom fwynhau y diwrnod a daeth yr haul allan yn y Bermo a thywydd braf ar ein ffordd yn ôl.

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs J.E. Ellis, 8 Glanrafon MARW

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs. Simonds, Ty'n Coed yn 92 oed. Bu yn weithgar iawn ynglŷn â'r ddwy eglwys, St. Peris a St. Padarn am flynyddoedd. Cydymdeimlir a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

TREIALON - Mewn pwyllgor ar Chwefror 5ed, penderfynwyd ail sefydlu treialon cŵn defaid yma yn Nant Peris. Etholwyd pwyllgor lleol i fod yn gyfrifol am y trefniadau. Cynhelir y treialon yn cae Tŷ Coch dydd Gwener Mai 24 a dydd Sadwrn, Mai 25. Gobeithia y pwyllgor gael pob cefnogaeth er llwyddiant y fenter.

DRAENOG



Gobeithio y bydd pencneifiwr y fro yn medru sefyll yn gadarn ar ei ddau droed yn ystod treialon - fe'i gwelwyd ar ei ben-ôl yn y mwd yn ddiweddar wrth iddo geisio bwydo'i ddefaid.

SCIPIAU TIM



o £16

CYTUNDEB DYDDIOL NEU WYTHNOSOL
TIM FRAZER JONES
BUARTH BERAN, DEINIOLEN
LLANBERIS 871354

AM WAITH
PAENTIO
A PHAPURO
O BOB MATH

LEN
ROBERTS
WAUN HOWEL
LLANRUG
Ffôn Llanberis
870971
PRISIAU RHESYMOL

Busnes newydd ym
Mro'r Eco...

EMYR
JONES
PLYMAR
PEIRIANNYDD
GWRESOGI
GWAITH
INSIWLEIDDIO
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon.
3513

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs. Ann Evans, Sycharth, Bryn Eglwys (Ffôn 872400)

YSGOL TAN Y COED – Bu nifer fawr o'r plant yn sâl yn ystod y mis hwn. Bu'r rhan fwyaf ohonynt yn dioddef o'r frech goch ond rydym yn falch o'u gweld wedi gwella ac yn ôl ymysg eu ffrindiau.

YR URDD – Ionawr 30. Cafwyd orig ddiddorol iawn yng nghwmni Arwel Jones. Aeth yn syth i fyd y plant gyda'i ganeuon poblogaidd am adar, anifeiliaid, bwtan brain a Hen Feic Penffarddang fy Nhaid. Cafodd y plant dasg ganddo, i dynnu llun unrhyw beth a ganodd amdano. Bydd gwobr i'r llun gorau. Bu'r ymateb yn dda iawn a chafwyd lluniau didorol dros ben. Edrychwn ymlaen i weld pwy yw'r enillydd! Iolch iddo am bnawn diddorol.

Chwefror 6. Cafwyd cwis gyda Mr. Dewi Lake. Rhannwyd y plant yn ddau dîm, Tim A a Thîm B. Im B fu'n llwyddiannus y tro hwn, ond roedd Tim A yn dynn wrth eu sodlau. Gornest glos a chyffrous iawn. Ein diolch i Mr. Lake am baratoi'r cwis. Bu'r plant yn edrych ymlaen yn eiddgar at eu trip i'r Ganolfan Hamdden ar Chwefror 13. Llogwyd y pwll nofio a'r Gampfa am awr o 5 o'r gloch tan 6 o'r gloch. Trefnwyd bws i gludo'r plant yno. Ein diolch i Mr. Tony Eliott a Dafydd Evans am ddod yno i helpu'r rhieni a'r athrawon. Cafodd y nofwrwr elioed da yn y pwll nofio hefo Mary Eliott, Elen Lewis a lola Jones. Ond siomwyd y gweddill – a pheth mawr yw siomi plant. Dargannfuwyd fod y Gampfa eisoes wedi ei llogi i dîm pêl rwyd.

Ond profodd effeithlonrwydd Ms. Elisabeth Jones ein hysgrifennydd, mae'n plant ni oedd i fod yn y Gampfa ar yr adeg arbennig yma. Cafodd y rheolwr hyd i lythyr Mrs. Jones yn cadarnhau llogi'r Gampfa. Ymddiheurodd a gobeithiwn fynd yno ar Fawrth 6.

Dyma'r gweithgareddau o Chwefror 27 hyd Fawrth 27.

Chwef 27 – Sgwrs gan Mr. Arthur Rowlands o Gaernarfon.

Mawrth 6 – Y Gampfa yn y Ganolfan Hamdden.

Mawrth 13 – Sgwrs gan Mr. Leslie Larsen, Penisarwaun.

Mawrth 20 – Arlunio gyda Mr. Islwyn Williams, Penisarwaun.

Mawrth 27 – Helfa Drysor o amgylch yr ysgol.

Pob lwc i chwi blant sy'n cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Llanrug ar Fawrth 9.

CAPEL BOSRA – Oherwyd yr eira gohiriwyd 'Canu'n Llon', a oedd i'w gynnal yng Nghapel Ebenezer, Deiniolen ar Chwefror 10. Bwriedir ei gynnal yn ystod Mis Mawrth – fe fydd

bws i gludo'r rhai sy'n dymuno mynd a gwneir casgliad at Newynog Ethiopia.

EGLWYS SANTES HELEN – Dymuna'r Ficer a'r Wardeniaid ddiolch i Mr. W.H. Williams, Arfyn, Llanrug, am ei rodd o biano ar gyfer defnydd yr Eglwys. Mae'r offeryn yn hardd ac yn cael ei rhoi ar amser cyfleus iawn oherwydd fod y ddwy biano a oedd yn y Neuadd yn dechrau dangos eu hoed. Diolch yn fawr. Bellach daeth y sgaffaldiau i lawr a chafwyd cyfle i weld gwaith y crefftwyr ar y tŷ. Mae'r Eglwys yn awr yn edrych yn hardd a charem ddiolch i'r canlynol am eu llafur yn glanhau ar ôl y gweithwyr: Mrs. Jennie Roberts, Mrs. Annie Hughes, Mrs. Mary Davies, Mrs. Rowena Williams, Mr. W.H. Williams, Y Parch Aled Edwards a Mr. Tegid Roberts.

Dydd Sul, Ionawr 27, bedyddiwyd Rheon, mab Mr. a Mrs. Bryn Hughes, Bethel, gan y Ficer, Y Parch Aled Edwards. Pob bendith arno ac ar y teulu.

GWAELEDD – Deallwn fod nifer fawr o'r pentref, yn oedolion a phlant wedi bod yn sâl yn ystod yr wythnosau oer yma. Dymunwn adferiad iechyd buan i chwi i gyd.

Deallwn fod Mr. Meirion Jones, Weirglodd Las yn awr yn Ysbyty Gwynedd yn derbyn triniaeth yn dilyn damwain a gafodd ddydd Sul, Chwefror 3, o flaen 'Arwel. Dymunwn iddo adferiad buan ac hefyd ein dymuniadau da i Mr. Iorwerth Thomas, Bron-y-Gaer, sydd yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella. Da hefyd oedd gweld Naethan Eagles wedi gwella ar ôl triniaeth yn yr Ysbyty.

CYDYMDEIMLAD – Ein cydymdeimlad llwyraf â Mrs. M. Jones, 5 Llys y Gwynt, sydd wedi colli ei chwaer yng nghyfraith. Hefyd Mr. J. Jones, Weirglodd Las, wedi colli ei frawd yn ddiweddar yn Llanrug.

Cydymdeimlwn â Mrs. Mary Davies a Mrs. M.J. Roberts, Tai Croesion o golli perthynas agos yng Nghwm y Glo.

LLONGYFARCHIADAU – Llongyfarchwn Ms. M. Thomas, Bod Awen ar fod yn hen nain unwaith eto. Ganwyd mab bychan i Brenda ac Alan o Sir Fôn.

Deallwn fod Mr. a Mrs. D. Roberts, 10 Bryntirion, yn daid a nain eto, a Mrs. Kate Williams, 8 Llys y Gwynt yn hen nain. Ganwyd merch fach i Nerys a Wil.

Dymuniadau da i Mrs. Gaynor Williams, 15 Bryntirion ar ddathlu ei phenblwydd yn 80 ar Chwefror 10. Pob bendith ichi.

Llongyfarchiadau i Claire Louise Graham, Bryn Eglwys ar ddathlu ei

phenblwydd yn ddeunaw oed.

CLWB CANT – Mae dros 140 aelod yn Nghlwb Cant y Neuadd, ond mae croeso o hyd i aelodau newydd. Cysylltwch â Huw Williams neu Leselie Larsen

EISTEDDFOD Y PENTREF – Noson 'Cawl a Chân'

Cofiwch am y noson 'Cawl a Chân' a gynhelir yn yr Ysgol Gynradd, nos Wener, Mawrth 15 am 6.30 o'r gloch. Mr. Arwel Jones, Pant YHwyel sy'n dod atom ni eto eleni ac edrychwn ymlaen at noson hwyliog yn ei

gwmni.

CLWB CANT Y NEUADD

Enillwyr mis Chwefror

1. £18 Mrs. Annette Webb, Bryntirion; 2. £12 Mrs. Evans, 11 Llys-y-Gwynt; 3. £6 Mr. Davison, Arthur House, Tai Arthur.

Bellach mae 148 o aelodau, ac felly mae'r gwobrau'n uwch y mia yma, ond mae croeso i unrhyw un arall ymuno. Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn i'r casglwyr am wneud gwaith mor dda. Diolch hefyd i Mrs. Owen, Siop Gron am ei haelioni ac i bawb am eu rhoddion.

'LLAW Y GAEAF OER



Er na chloiodd gerwinder Chwefror Lyn Padarn, fe rewodd frigau'r coed ar ei lannau. Yn y cefndir mae'r Wyddfa dan gwmwl gaeafol.



'A bysedd bach y coed i gyd mewn menig gwyn.'

AM DDEWIS HAEL A
GWASANAETH CYFEILLGAR
DEWCH I

SIOP GRON

A SWYDDFA'R POST
PENISARWAUN

Ffôn:

Llanberis 871272

CANOLOG I'R FRO



**GWILYM O.
ROBERTS**

WEIRGLODD
GOCH

PENISARWAUN

Ffôn Llanberis
871407

**DOSBARTHWR
LLEFRITH**

Trwy ardal
ECO'R WYDDFA

Hefyd TATWS, WYAU
ac ati at eich drws

**NORMAN
JONES**

4 Tai Disgwyllfa
LLANRUG

Ffôn:

CAERNARFON 3476

**GLANHAWR
FFENESTRI**

* Siopau * Tai *

* Swyddfeydd *

Gwestai * Ffatrioedd
Yswiriant Llawn
Hefyd peintio – tu fewn a
thu allan

ECO'R IFANC Canolfan Waunfawr

Mae'n amlwg bod menter Canolfan Waunfawr yn profi'n fendithiol iawn i drigolion y fro, ymmdengys bod y gwaith caled o'i chreu eisoes yn dwyn ffrwyth. Dim ond un agwedd o'r holl weithgareddau sy'n deillio o'r Ganolfan yw'r darpariaethau ar gyfer ieuenctid y pentref. Am dair noson o'r wythnos bydd y drysau'n agored i wahodd pobl ifanc yr ardal i mewn - y Clwb Ieuenctid ar nos Lun, Aelwyd yr Urdd ar nos Fawrth ac Adran Bentref yr Urdd an nos Fercher. Bu Eco'r Ifanc yn ymweld a'r Aelwyd yn ddiweddar ac yn clywed hanes rhai o fechgyn wr tim pel-droed yr Adran Bentref.

YR AELWYD

Dyma ddatblygiad newydd er pan agorwyd y Ganolfan, datblygiad sy'n deillio o lwyddiant yr Adran Bentref sydd wedi bod yn weithgar ers blynnyddoedd bellach. Gwych o beth yw cael gweld sefydlu Aelwyd fel hon fel modd o ymestyn gweithgareddau'r Urdd i bobl ifanc dros bedair ar ddeg oed.

'Mae oddeutu deugain o aelodau bellach' meddai Dic Jones (arweinydd) 'a pheth braf yw cael croesawu cynifer o bobl ifanc yma bob nos Fawrth. Mae awyrgylch gartrefol iawn yma yn y Ganolfan a'r bwriad yw ceisio cadw rhyw naws

anffurfiol. Er hynny, byddwn yn trefnu pob math o weithgareddau gan geisio apelio at ddiddordebau'r aelodau.'

Ac yn wir, yn ystod ymweliad Eco'r Ifanc roedd nifer o wahanol weithgareddau ar y gweill. Roedd sgwrsio hamddenol, gêm o bwl, ymarfer cyd-adrodd, chwarae tenis-bwrdd, ymarfer drama a threfnu tîm pêl-rwyd a hyn i gyd o fewn awr!

Wrth gwrs, gan fod tymor yr Eisteddfodau ar eu gwarthaf bydd yn golygu prysurdeb mawr gan fod yr Aelwyd am gystadlu am y tro cyntaf erioed.

Cipolwg ar weithgareddau'r ieuenctid yn Waunfawr



Yn ddiweddar bu tîm tenis-bwrdd yr Aelwyd i lawr yng Nghaernarfon mewn cystadleuaeth yn erbyn aelwydydd Eglwys Fach a Llanystumdwy. Yn anffodus ymweliad go aflwyddianus oedd hi, ond cawsom hwyl a chyfle i gymysgu gyda'r aelwydydd eraill. Wythnos nesaf bydd cystadleuaeth ddartiau yn cael ei chynnal yma yn erbyn aelwydydd Y Ffôr a Bethesda.

Iwan Elis

ACTORION O FRI!



Dyma griw amryddawn yr Aelwyd yn ymarfer ar gyfer cystadleuaeth ddrama

Padarn Lake Hotel

Perchnogion
Terry a Val Skilki
**STRYD FAWR
LLANBERIS
870260**

- Beth am bryd o fwyd yn ein Bar Lolfa newydd, hardd a chyfforddus, sydd ar agor amser cinio a fin nos, saith diwrnod yr wythnos.
- Yn ein ystafell fwyta hefyd cewch ddewis rhagorol o brydau Table d'Hôte ac À la Carte. Croesewir plant.
- Mae ein lloffttydd newydd gael eu hadnewyddu'n foethus, llawer gyda bathrwm, teledu lliw ac offer gwneud te a choffi. Gellir gweld y llyn neu'r mynyddoedd o'r rhan fwyaf ohonynt.
- Ceir adloniant yn ein Bar Lolfa bob nos Sul, yn aml yn cynnwys talentau Cymraeg lleol.



CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

AM FFENESTRI DRYSAU GRISIAU

neu unrhyw fath o gynnyrch coed ffoniwch

BRYN LLANBERIS 870793

B & K WILLIAMS
TANRALLT
CWM-Y-GLO

TÎM PÊL-DROED YR ADRAN



Dyma rai o ddewrion yr adran!

Eleni am y tro cyntaf, cymerodd Adran Bentref Waunfawr ran yn y gystadleuaeth pêl-droed i hogiau dan 13 oed. Cawsom ddwy gêm yn y gystadleuaeth, un yn gymharol hawdd mae'n rhaid cyfaddef yn erbyn Llanfairfechan a'r llall yn gêm derfynol yn erbyn Pwllheli a oedd yn llawer caletach a blinedig.

Roedd Llanfairfechan yn cystadlu am y tro cyntaf fel ni ac roeddau ni'n lwcus o gael chwarae ar ein cae ein hunain. Ar ôl gêm reit dda daeth buddugoliaeth i'r Waun o 24 gol i 2!

Ond roedd pethau'n bur wahanol yn erbyn Pwllheli, roeddynt wedi curo ein gelynion pennaf Bontnewydd. Roeddem wedi eu curo hwy ar eu cae eu hunain 5-1 ond wedi colli 6-3 yn Waunfawr. Ar ôl i'r gêm yn erbyn Pwllheli gael ei gohirio cyn y Nadolig chwareuwyd y gêm ym Mhenygroes ym mis Ionawr. Mae cae Penygroes ar

allt, felly roedd hi'n bwysig pwy oedd yn cael dewis pa ochr i chwarae gyntaf. Pwllheli enillodd, a dewiswyd chwarae ar i fyny yn yr hanner cyntaf. Roedd tîm llawer talach a chryfach ganddynt, ond eto roedd Waunfawr yn dal eu tir yn dda. Ar ddiwedd yr hanner cyntaf blinedig ac anodd roeddynt sgor yn sefyll mor anghredadwy ... 2-0 i'r WAUN. David Lewis a Peter Roscoe a sgoriodd.

Ond, yn yr ail hanner aeth goliau hawdd drwy byst Waunfawr, 2-1, 2-2 2-3! Gyda rhyw saith munud i fynd roeddem mewn sefyllfa anobeithiol gyda'r sgor yn 3-2 i Bwllheli. Roedd pawb yn fwd i gyd, wedi blino ac yn chwarae i fyny'r allt, ond eto roeddem yn dal i bwysu ar byst Pwllheli.

Roedd pawb yn disgwyl am yr olaf bîb; roedd Waunfawr wedi colli ar ôl nawdeg o funudau blinedig. Roedd Pwllheli yn codi'r darian unwaith yn rhagor.

Euros Wyn

SIBRYDION O'R YSGOLION YSGOL BRYNREFAIL

CARTREFI JOHN GROOMS - Mae'r chweched dosbarth yn helpu i werthu cenin pedr yn yr ysgol i godi arian tuag at gartrefi John Grooms yng Nghymru.

EISTEDDFOD - Dymunwn bob lwc i ddisgyblion yr ysgol sy'n cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Sur Hugh Owen ar Fawrth yr ail.

D.W. DAVIES
CONTRACTWR
CLUDO
LLWYTHI BYCHAIN
5 STRYD THOMAS
LLANBERIS
Tel: 872556

Llogi Cymysgwyr
Concrit
Clirio Safleoedd
Clirio Tai
am brisiau
cystadleuol

W.H. JONES
TRYDANWR
Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS

Contractau
Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

Yn sicr mae digon o le ac adnoddau o fewn y Ganolfan i apelio at yr ifanc. Yn y neuadd fach mae bwrdd pwl a bwrdd dartiau ac yn y neuadd fawr mae digonedd o le i chwarae tenis bwrdd, pêl-droed a phêl-rwyd. Un aelod sydd yn amlwg wrth ei fodd gyda'r drefn newydd yw Aeron Wyn Jones, dyma ei ymateb 'Dw'i wrth fy modd yn cael dod yma, yn enwedig i chwarae pwl a tenis bwrdd. Mae'r Ganolfan yn le ardderchog - y peth gorau sydd wedi digwydd i Waunfawr.'



Aeron Wyn Jones

**POB LWC I BLANT A PHOBL IFANC BRO'R ECO FYDD
YN CYSTADLU YN EISTEDDFODAU'R URDD O FEWN Y
MIS NESAF TYBED PWY FYDD WEDI LLWYDDO I
GYRRAEDD CAERDYDD ERBYN Y RHIFYN NESAF?**

**YR URDD
EISTEDDFOD
CYLCH ARFON
Dan 12 oed**

Ysgol Brynrefail,
Llanrug
Dydd Sadwrn,
Mawrth 9

Drysau ar agor 12.30
I ddechrau am 1.00

Mynediad - Oedolion
75c Plant 10c

**YR URDD
EISTEDDFOD
CYLCH ARFON
Dan 15 oed**

Ysgol Syr Hugh
Owen, Caernarfon
Dydd Sadwrn,
Mawrth 2

Drysau ar agor 12.30
I ddechrau am 1.00

Mynediad - Oedolion
75c Plant 10c

Awdurdod Datblygu Cymru

**A ydych chi mewn busnes?
A ydych chi'n meddwl
cychwyn ar eich pen eich hun?**

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor. Ffôn: Bangor 352606

**Welsh
Development Agency**

WRTH GROESI'R FFIN

gan Goronwy Owen

Roedd hi'n siarad pymtheg y dwsin, a doedd y wraig a minnau yn deall yr un gair. Pwyntiai at ein bagiau, ysgydwai ei braich i fyny ac i lawr, ac agorodd lifddorau'r felin bupur, ond er ei huodledd, ofer oedd y cyfan. Doedd ganddom ni ddim syniad beth roedd hi'n geisio'i gyfleu. Roedd ei chroen yn ddu fel y fran, a hawdd oedd edrych ar ei gwên atyniadol, ond doedd hynny ddim yn gwella ein dealldwriaeth. Cyn belled ag y gwyddem, gallai fod yn hel arian i brynu eira i'r escimo.

Mynd i mewn i'r 'cystoms' yn Lisbon yr oeddem, ein bagiau a'n dogfennau yn barod yn ein dwylaw. Edrychasom yn obeithiol at y swyddogi a eisteddai yn ei ddesg, ond yn amlwg, doedd o ddim am ymyrryd. Yna, daeth gwaredigaeth; bachgen ifanc oedd yn gallu cyfieithu.

'Mae hi'n gofyn ewch chi a parsel i'w chwaer sydd yn aros yn Heathrow,' meddai, a diflannodd drwy'r dollborth. Edrychodd Nan a minnau ar ein gilydd. 'Rydym bob amser yn ddigon parod i wneud cymwynas, ond roedd yr erfyniad hyn yn od, yn od iawn. Onid dyma un sgil a ddefnyddir gan drafnidwyr cyffuriau i gael eu nwyddau o un wlad i'r llall? Ddim ar un cyfrif oeddem ni yn mynd i gario'r sothach gwenwynol yma, hyd yn oed yn hollol ddiniwed, er mwyn malurio bywydau a gwneud elw i ddynion digydwbybod. Yn ogystal doedd yr un ohonom yn awyddus i wario'r Nadolig mewn carchar. Roedd ein 'Na' yn bendant. Be fydddech chi wedi ddweud?

Rhys deimlad rhyfedd yw cerdded i mewn i'r 'Customs', a gosod eich bagiau o flaen dynion a merched sydd a hawl i archwilio eich corff a'ch holl eiddo. Bythefnos yn gynt, wrth fynd ar wyliau, safwn o flaen merch ifanc llai na hanner fy oed. Holai'n gyfeillgar o ba ran o Gymru y deuw, ac yn amlwg roedd hi'n gyfarwydd â Morgannwg. Ar yr un pryd aeth drwy un bag a gariwn hefo crib mân. Dwn i ddim ar y ddaear beth oedd merch mor radlon yn ddisgwyl ganfod yn fy mag ymolchi. Rhoddodd sylw manwl i'm brws shafio. Gallech feddwl fod pob blewyn yn aur pur. Wrth ei ddefnyddio, bore wedyn, edrychais arno'n drwyadl. Beth yn y byd ellwch chi guddio mewn

brws shafio sy bron mor foel a phen Kojak. Cymerodd fy llyfrau allan - dwy nofel, llyfr o bosau croesair a Blodeugerdd Rhydychen. Rheddodd ei bysedd drwy'r tudalennau. Yn amlwg doedd y llenyddiaeth Saesneg na Chymraeg, yn cyfrif dim iddi, yn ei gwaith. Cuddfan i nwyddau gwaharddedig oedd llyfr.

Cofiwch, dydy pob Swyddog ddim mor drwyadl. Ar un ffin yn lwrop, arhosais hefo'r car a'r garafan. Heb godi'i ben, amneidiodd y gofalwr arnaf i fynd ymlaen ar fy nhaith, ac am fy mod yn araf yn deall, rhoddodd lond pen o dafod i mi. Dro arall ym Maes Awyr Kennedy, cefais fy hun yn sefyll o flaen swyddog hynod o dal. Ni thrafferthodd i droi ei lygaid i lawr tuag ataf. Tra'n edrych i'r pellter dros fy mhen, gofynnodd un cwestiwn: 'Have you got any food?' Na, nid llwgu roedd o, ond gwneud ei waith. Nid yw'n gyfreithlon i gario bwyd i mewn i'r Amerig.

Wrth groesi o Canada i'r Unol Daleithiau, holodd un swyddog fi'n fanwl ynghylch fy musnes a'm pwrpas, ac wedi bodlonni nad oedd y wraig na finnau naill na'n ysbiwr na'n smyglars, ysgrifennodd y rhif 2, ar ddarn bychan o gerdyn gwyn plaen. Daliodd hwn i mi, gan ofyn wnawn i ei roi i swyddog yn is i lawr ar y cownter hir. Diolchais iddo, a cherdded yn dalog hyd yr ystafell, ddim ond i gael fy ngalw yn ôl, oherwydd er mawr syndod i mi, roedd y swyddog oedd i dderbyn y cerdyn yn sefyll yn union wrth ochr y cyntaf. Cam syniad bach disylw medde chi, ond rhyw chwe wythnos wedyn, digwyddodd yn union 'run peth hefo'r un swyddogion ond fy mod i nawr yn derbyn y cerdyn a heb symud cam yn ei drosglwyddo i'r ail ddyn. 'Paham', gofynnais i mi fy hun, 'paham y cerdyn bach gwyn?'

Er pendronni a phendronni, dim ond un atebiad oedd yn datrys y dirgelwch. Yn fy nhŷb i, mae nawr ym meddiant dynion 'customs' yr 'u.d.a. ddau gopi o brint fy mys a'm bawd. Rhaid bod golwg llechwraidd arnaf. Oes rhywun yn gwybod faint mwy mae nhw eisiau i wneud set?

Ond i fod o ddifrif, mae'r

dynion a'r merched yma yn gwneud gwaith sy'n angenrheidiol tra bo drwgweithredwyr a selotiaid penboeth yn peryglu bywydau ac achosi anghydfod. Braf fyddai dileu ffiniau gwledydd, ond tra bo'r byd yn ei gyflwr ansicr, rhaid i ni i gyd dderbyn yr holi a'r chwilio gyda bodlonrwydd.

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwytg 670726)

DIOLCH - Dymuna Tony a Helen, Glan Gors, ddiolch i bawb am y lluo gardiau a'r anrhegion defnyddiol a dderbynwyd ar achlysur eu dyweddïad.

YR YSGOL FEITHRIN - Y mae pwyllgor yr Ysgol Feithrin yn tefnu Cawl a Chân i ddathlu Gŵyl Dewi yn y Neuadd Goffa ar Fawrth 6, am 6.30 or gloch. Bydd Ann Hopcyn yn diddanu'r plant gyda'r gitar, cymerir rhan hefyd gan barti o'r gangen leol o Ferched y Wawr. Tal mynediad fydd 50c i oedolion a 25c i blant. Croeso cynns i bawb. Hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i'r bobl sydd wedi rhoi tegau, gemau ac yn y blaen i'r ysgol feithrin.

APÊL ETHIOPIA - Yn ddiwedd ar bu Gweno Owen, Crud y Arwel, Helen Williams, 1 Tan y Cae, Ceinwen Parry, Waun Deg, Alison Jones, Fron Gadair, Cwm y Glo a Meinir Owen, Crud yr Awel yn 'Rolio Sgetio' am ddwy awr a hanner er mwyn codi arian at blant Ethiopia a changlwyd £42.42c i'r apêl. Diolch i bawb a gyfrannodd.

MARW - Dydd Llun, 11 Chwefror, yn 64 mlwydd oed bu farw John Williams, Cefn Bach. Bydd chwith ei golli yn mynd o gwmpas yr ardal ar efn eifeic. Bu'r angladd ddydd mercher Chwefror 20, yng Nghapel Saron a rhoddwyd ei weddillion i orwedd ym mynwent Llanddeiniolen.

MERCHED Y WAWR - Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror yn Neuadd yr Ysgol, nos Fercher 13, ac er oered y tywydd daeth cynulliad da o'r aelodau ynglŷd i rando ar Mrs. Meri Wyn Jones, Ffiseotherapist yn Ysbyty Dewi Sant. Cafwyd sgwrs ddiddorol ar 'Accupuncture' a'i lê yn y byd meddygol heddiw. Estynodd Mrs. Glenys Griffith y llywydd, ddymuniadau da i Ann Hopcyn a'r teulu yn eu cartref newydd yng Nghaernarfon. Y gwestwagedd oedd Mrs. Mabel Jones Mrs. Mary Evans. Enillwyd y raffl gan Mrs. Meinir Roberts.

Mae'r gangen yn difyrru cangen Bontnewydd yn eu dathlu Gŵyl Ddewi nos lau, 28 o Chwefror. Bydd y bws yn cychwyn oddi wrth yr ysgol am ddeng munud i saith.

Yng nghyfarfod mis Mawrth bydd y gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda lluniaeth ysgafn a disgwylir Mair Elvet Thomas, Cyn-Lwydd Cenedlaethol, Merched y Wawr atom.

CLWB FFERMWYR IEUANC, CAERNARFON

Yn ystod y mis diwethaf bu'r aelodau yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau Ffederasiwn Eryri, a cawsant lwyddiant.

Ar Ionawr 24 bu nifer ohonynt yn cymryd rhan yn y cystadleuthau chwaraeon a gynhaliwyd yng Nghanolfan Chwaraeon Arfon.

Badminton - Merched: 1af Morfudd Williams

Badminton - Bechgyn: 3ydd Dylan Griffiths

Badminton - Dwbl Cymysg: 3ydd Dylan Griffiths a Morfudd Williams

Bu Elwyn Griffiths, Myfyr Jones a Jane Thomas yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth tenis bwrdd Trebor Thomas yn chwarae dartiau.

Dydd Sadwrn, Chwefror 16 cynhaliwyd Gweithgareddau Merched yn Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes. Dyma lwyddiant a ddaeth i'r clwb:

Arwyddbais i'r Clwb - 3ydd Alwyn Jones

Coginio - Pate: 1af Ellen Hughes

Cywaith - Caws: 2il Ellen Hughes a Jane Thomas

Gwnio - Gorchudd Continental Quilt: 2il Jane Thomas

3ydd Ellen Hughes

Nos Sadwrn, Chwefror 16, aeth Morfudd Williams, Gareth Hughes, Huw Morgan a Llifon Griffiths i gystadlu mewn sgets. 'Hir yw bob ymaros' yn Noson Rhagbrofion Sgetsus a Chaneuon Actol a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa, Chwillog.

PWYLLGOR Y NEUADD - Ym mhwyllgor y neuadd nos Lun, Chwefror penderfynwyd ail-drefnu glanhau a gofalu am y neuadd. Penderfynwyd creu dwy swydd. Un swydd i gadw'r gorlad, agor a chau a ofalu fod y gwres a'r golau yn cael ei ddiffodd, a swydd arall i lanhau y Neuadd unwaith yr wythnos. Penderfynwyd gwahodd ceisiadau am y ddwy swydd. Dylai unrhyw un a diddordeb gysylltu a'r ysgrifenyddes Mrs. Mair Read, Llwydiarth. Penderfynwyd hefyd fod y pedair garej bellach wedi mynd i gyflwr bregus ac y byddai trefniadau yn cael eu gwneud i'w chwalu.

Y CARNIFAL - Siomedig iawn oedd y nifr a ddaeth i'r Neuadd i geisio sefydlu pwyllgor ar gyfer carnifal 1985 ond daeth criw da iawn ynglŷd i gyfarfod Chwefror 20, a phenderfynwyd y byddai carnifal eto eleni ar y cyfnod 7-13 Gorffennaf. Dewiswyd Mrs. Nan Owen yn ysgrifennydd a Mr. Ieuan Williams yn drysorydd.

Penderfynwyd gwahodd genethod dosbarth uchaf yr ysgol gynradd i roi eu henwau ymlaen i fod yn frenhines neu yn yr osgordd mewn Noson Goffi a gynhelir yn y Neuadd nos Wener, Mawrth 15.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor, nos Lun, Mawrth 18 yn y Neuad a gwahoddir yn gynnes iawn aelodau newydd yn arbenig felly rai o ddynion yr ardal.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

IEUAN
WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Cefais ganiatad gan Mr. John Roberts Williams i gynnwys y penillion ganlynol. Yr wyf yn ddiolchgar iddo ac yn manteisio ar y cyfle i'w longyfarch ar yr Anrhydedd a dderbyniodd yn ddiweddar gan Brifysgol Cymru.

Deg o Gymry gwirion bach
Yn slafio yn y baw;
Sgrifennodd un mewn Saesneg
da
Ei ffordd yn glir o'r naw.
Naw o Gymry enwadol bach
I'r Sasiwn aeth yn llwyth
Ymunodd un a'r Inglis Cos
Oddiwrth yr hoelion wyth
Wyth hen Gymro o flaen eu gwell
A'r cwbl o un iaith;
Fe gamgyfieithwyd geiriau un
Gan adael dim ond saith
Saith archwiliwr Cymreig pur
Yn chwilio i achos brech;
I'r Bwrdd lechyd aed ag un
Gan adael dim ond chwech.
Chwech o ddewrion Gwalia wen
I Hitler roddai gwmp;
Aeth un i'r fyddin ar ei ben
Ond gwrthwynebodd pump.
Pump o Gymry gwirion bach
A'r beili ar eu hól.
Aeth un o'i wlad i chwilio am
waith
A phedwar ar y dól.
Pedwar Cymro serchog iawn
Yn caru faciwi;
Fe briododd honno'r ffolaf un
Gan adael dim ond tri.
Tri methodig Gymro gwyw,
A'u hynni yn gwanhau,
I'r Senedd a anfonodd un
Heb adael dim ond dau.
Dau o Gymry gwirion bach
Aeth fel y byd yn gall;
Fe heliwyd ffartiwn fawr gan un
Ond methu a wnaeth y llall.
Un hen Gymro'n methu dal
I'w wlad a roddodd glec;
Dywedodd mab i bwy oedd ef -
Ac aeth i'r BBC.
O'r 'Cymro' 15.11.41
John Aelod Jones

HENGOFNODION 1841

Cafodd Mr. J.W. Jones hyd i hen
Lyfr Cofnodion wedi ei gadw gan
un o Benmachno. Rhoddodd
ranau o'r llyfr yn ei golofn
boblogaidd a elwid 'Y Fainc
Sglodion' yn Y Cymro 1941.
Dyma rai o'r cofnodion:

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

1. Dechrau gwisgo trowsus yn lle
clôs am y tro cyntaf yn 1807
2. Gwylmabsant am y tro olaf ym
1805.
3. Y Frechwen yn lladd dros dri
ugain o bobl Penmachno mewn
pedwar mis ar ddeg - sef
1705-1706.
4. Dim ond dau yn blacio eu
hesgidiau yn yr holl blwyf, sef
Robert Price y Teiliwr a David
Price, Gamekeeper, yn 1825.
5. Adfywiad mawr ar grefydd am
y tro cyntaf trwy'r plwyf i gyd.
Robert Hughes, Scotland Street
yn hollti ei gloesiau wrth
orfoleddu ym Menllech 1815.
6. Prinder ymborth mawr ym
Mhenmachno. Byd caled i'r
gweithiwr, Lewis Andrew a
David Davies yn gweithio am
chwe cheiniog y dydd a gorfod
mynd a'u bwyd eu hunain. Y
gwaith oedd lladd gwair ym
Mhen Bont yn 1814.
7. Trol y Pandy yn disgyn i lawr y
Ceunant gyda llwyth o redyn a
dau geffyl i'w chanlyn. Ni
welwyd na migwrn nac asgwrn
ohonynt hwy na'r drol byth
wedyn yn 1794.
Yr hen lanciau yn cyhoeddi
melltith ar bob peth ffasiwn
newydd wedyn, gan mai dyna
oedd trol, sef rhywbeth ffasiwn
newydd yn yr oes honno. Yr oedd
eisiau dileu pob peth ffasiwn
newydd medda 'nhw'.

Hen Arferiad

Byddai morwyn fferm yn lluchio
crempog i'r ceiliog ar yr iard
ddiwrnod y grempog. Yna cyfrif
faint o ieir ddeuai i helpu'r ceiliog
i fwyta'r grempog! Pa nifer
bynnag o ieir ddeuai at y ceiliog,
dyna'r nifer o flynyddoedd y
byddai'r forwyn yn gorfod
disgwyl i briodi.

Clywais y diweddar T.W. Thomas
yn adrodd yr englyn yma lawer
gwaith gyda hwy!

Dyn Siwrin

Ble'r aeth y doniau ffraethfin? -
i'r hendud
Daeth rhyw brinder cethin:
Yn ein bro pob dawn sy'n brin
Ond dawn siarad dyn siwrin!
Collwyn o Drefaldwyn

Beddargraff Potshiar

Mae'n dawel yn ei wely - a
cheinach
Huna wrth ei lety.
Ac o'r Ywen dan wenu
leir y plas sy'n cweirio'u plu!
Collwyn

Beddargraff i Fenyw Gelwyddog
Hi ddywedodd a fedrodd tra fu -
o gelwyddau

Gwylwch ei dadebru
Neu hi ddywed 'rwy'n credu
I bawb mae'n y Nef y bu.
Oddeutu 1862
G. Parry, Newmarket

Wil a'i Wely
Mae sgil i gael Wil i'w wely -
a'i roi

Ar ei hyd i gysgu;
Ond helynt fwy'r teulu
Ydyw deffro'r Cymro cu.
Hel Wil o ganol ei wely -
i'r llawr

O'r llofft sy'n ein trechu;
O'i achos y mae pechu
Un o'i fath erioed ni fu.
Oddeutu 1942
J.W. Llundain

NOSON LAWEN

Cynhelir Noson Lawen yn
Neuadd y Pentref, Rhiwlas, nos
Fercher, Mawrth 27 am 7.30 o'r
gloch. Parti Merched Lleisiau'r
Gweunydd sydd wedi trefnu'r
noson ac wedi gwahodd Dafydd
Edwards, Gari Williams ac
Annette Bryn Parri i ymddangos
gyda nhw. Mae'r tocynnau ar
gael gan Einir Wyn Owen (ffôn
Bangor 352890) a Mary Elliott
(ffôn Llanberis 872438). Bydd
mynediad gyda thocyn yn unig.
£1.50 i oedolion a 75c i blant a
phensiynwyr. Brysiwch i sicrhau
eich tocyn - maent yn diflannu'n
sydyn!!

**EISTEDDFODWYR
COFIWCH Y DYDDIAD!
HYDREF 12ed
Dyna ddyddiad
Eisteddfod Gadeiriol
Llanrug eleni**

ESPERANTO

Bu hi'n freuddwyd oesol i gael un
iaith y medr pawb ddeall, ac aeth
rhai gwledydd ati i geisio 'dysgu'
eu hieithoedd hwy i'r byd - drwy
drais. Yr ydym ni yng Nghymru
yn deall ystyr trais ieithyddol yn
well na neb, ond un wlad arall a
ddioddefodd drais o'r un fath yw
Gwlad Pwyl - trais gan yr
Almaenwyr o'r gorllewin ac oddi
wrth y Rwsiaid o'r dwyrain. Does
dim rhyfedd felly mai yno y
dyfeisiwyd 'Esperanto' gan y Dr
L.L. Zamenhof, meddyg llygaid o
dras Rwsiaidd, Pwylaidd ac
Iddewig. Sylweddolodd mai dim
ond drwy iaith newydd, niwtral,
yr oedd gobaith cael pawb yn y
byd i'w dysgu - heb drais. Nid yw
Esperanto yn iaith gyntaf i neb,
ac felly nid yw yn fygythiad i
unrhyw iaith hanesyddol. Dyma
paham y dangosir y brwdfrydedd
mwyaf i hybu Esperanto fel iaith
ryngwladol swyddogol yng
gwledydd bychain y byd, tra
bod gwledydd mawrion megis
Lloegr a Ffrainc ddim mor
awyddus i weld yr iaith yn
llwyddo. Honnir bod tua wyth
miliwn o bobl yn medru siarad
Esperanto, felly nid gwastraff
amser yw dysgu'r iaith, yn
enwedig os carech gyfathrebu
gyda'r byd mewn iaith arall
heblaw Saesneg, ac wrth gwrs,
nid yw pawb yn deall Saesneg!

Bu cynnydd yn y diddordeb
mewn Esperanto yng Nghymru
yn ddiweddar, ac fel canlyniad
sefydlwyd Ffederasiwn
Esperanto Cymru ym mis
Mawrth eleni. Mae'r Ffederasiwn
yn cynnal cyfarfodydd a chysiau
ar draws Cymru, ac yn cyhoeddi
cylchlythyr o'r enw 'Kimra Voko'
(Llais Cymru) bedair gwaith y
flwyddyn. Bydd cynhadledd fawr
Cymdeithas Esperanto Prydain
yn cael ei chynnal yng Nghymru
am y tro cyntaf yn ystod
Gwyliau'r Pasg nesaf yn
Llandudno, ac mi fydd y
cyhoeddusrwydd yn siŵr o greu
fwy fyth o diddordeb yn yr iaith.

Gellir dysgu Esperanto yn
hawdd iawn, gan fod gramadeg a
geirfa'r iaith yn syml, a honnir y
gellir dysgu'r iaith chwe gwaith
cyflymach nag unrhyw iaith
'naturiol' arall. Os oes diddordeb
gennych mewn Esperanto
medrwch gael gwybodaeth
bellach oddi wrth: Arfon Rhys,
Tan y Fron, Ffordd Abercaseg,
Bethesda, Gwynedd.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248
GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr..

Am waith
Cynllunio
o bob math
TAI NEWYDD
NEU ESTYNIADAU
**LEN
ROBERTS**
Waun Howel
LLANRUG
Ffôn: Llanberis
870971
Prisiau rhesymol

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen
Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

DINORWIG

GOHEBYDD- Mr. O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL - Nos lau, Ionawr 24, yn y Ganolfan cafwyd cyngerdd gan Barti Merched Tregarth. Mwynhawyd y cyngerdd yn fawr gan yr aelodau. Llywydd y noson oedd Miss Ellen Wyn Jones, Tŷ'n Fawnog, a gyflwynodd y parti i'r aelodau. Talwyd diolchiadau iddynt gan Mr. David L. Hughes, 2 Maes Eilian.

Nos lau, Chwefror 7 yn y Ganolfan cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr. Glyn Tomos, 1 Bro Elidir ar ei waith fel gweithiwr cymdeithasol. Llywyddwyd y noson gan Mrs. Alice Griffith, TanyBwlch. Talwyd diolch i'r siaradwr gan y Parch Ifor L. Williams, Bangor.

PENBLWYDD - Dymuniadau da a phob hapusrwydd i Mrs. Maggie Evans, Dublin House, Dinorwig ar ddathlu ei phenblwydd yn 87 mlwydd oed yn ddiweddar. (Chwefror 10)

O'R YSBYTY - Da croesawu Mrs. Hugh Thomas, 1 Bro Elidir o'r Ysbyty wedi llawdriniaeth ffeddygol. Parhaed i wella.

COFION - Ein cofion at yr ardalwyr sy'n cwyno yn eu cartrefi y tywydd oer yma.

DIOLCHIADAU - Dymuna Mr. R.G. Jones, Tan y Buarth Uchaf ddiolch yn gynnes iawn i'w deulu, cymdogion a ffrindiau ardal Dinorwig a Deiniolen am eu caredigrwydd tuag ato tra fu'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

YN YR YSBYTY - Deallwn fod Mrs. E. Phillips, 6 Maes Eilian, Dinorwig wedi bod yn yr ysbyty a Mr. Hugh S. Jones hefyd yn Ysbyty Gwynedd yn ceisio adferiad iechyd. Gwellhad buan fo iddynt.

DIOLCH - Dymuna Mrs. Alice Thomas, 1 Bro Elidir, Dinorwig ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am bob caredigrwydd, cardiau ac anrhegion a gafodd tra bu yn yr ysbyty. Diolch hefyd i feddygon a gweinyddesau Ysbyty Dewi Sant, Bangor.

TEYRNGED

Mr. Robert Hugh Thomas 'Creigle', Dinorwig

Ar ôl gwaeledd sydyn, bu farw Mr. Robert Hugh Thomas, 'Creigle' yn annisgwyl yn Ysbyty Gwynedd ar fore Sul, Ionawr 20. 'Roedd yn un o gymeriadau mwyaf hoffus ardal Dinorwig a daeth y newyddion brawychus am ei farwolaeth fel ergyd i'w deulu a'i ardal. Gadewir bwlch enfawr ar ei ôl nid yn unig yn y cartref, ond yn yr ardal gyfan.

Meddai Mr. Thomas ar gymeriad

annwyl a chadarn, yn gyson yn barod ei gymwynas, ac yn hael ei ffyddlondeb ym mhob agwedd ar fywyd. Bu'n Eglwyswr clodwiw, yn sefyll yn gadarn yn nhraddodiad godidog y chwarelwr Eglwysig. Prin y cynhyrchir yn ein cyfnod ni y fath sylwedd i gymeriad dynol a'r fath argyhoeddiad i gyfoethogi bro. Mawr yw y golled ar ei ôl wrth droed allor 'hen Eglwys bach' St. Mair.

aAdnabyddir Mr. Robert Hugh Thomas fel gweithiwr da. Bu'n ffyddlon nid yn unig i'w Waredwr ond i'w gyflogwr yn ogystal. Ar hyd y fro, gadewir hoel llafur coeth y gweithiwr hwn, ac mewn sawl adeilad, fe bery ffrwyth ei law yn dystiolaeth i waith â gwerth iddo.

aHanai yn wreiddiol o fyd yr hen Sir Fôn, yn un o blant ardal Brynsiencyn a grwydrodd gyda'i deulu i'r tir mawr a gwaith yn ardal y chwarel. Yn wir, yng nghylch bywyd y gŵr o 'Greigle', ceir pennod gryno yn hanes diwydiant a diwylliant y chwarel. Y teulu yn ymgartrefu yn ardal Dinorwig, a Mr. Thomas, ar ôl gweithio ysbaid yn y 'dry dock' yn y Felineli, yn cael ei le yn y chwarel. Wedi dirwyn prysurdeb y diwydiant llechi i ben, parhaodd parodrwydd y gweithiwr ffyddlon i osod graen ar waith.

Yn y cartref, gadewir ei briod annwyl, a theimlir y golled gan y plant, yr wyron a'r wyresau. Bydd y plant lleiaf yn sicr o golli eu hen daid hefyd. Mawr yw cydymdeimlad yr ardal â'r teulu yn eu profedigaeth. Ond yng nghanol ein gofid, cawn gysur tawel yn ffyddlondeb di-ildio Mr. Robert Hugh Thomas, 'Creigle'. Hir oes i'w enaid gyda Duw.

Y Parch Aled Edwards

DIOLCH - Dymuna Mrs. Annie Thomas, Craigle a'r plant - Gwenda, Grace, Nan, Margaret, Mona, Irfon ddiolch o galon i'w cymdogion a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth sydyn ac annisgwyl o golli priod a thad annwyl iawn. Diolch am y llu cardiau a llythyrau a dderbyniwyd. Diolch arbennig i'r Parch Aled Edwards am ei ffyddlondeb neilltuol ac am ei wasanaeth ddydd yr angladd. Hefyd i'r Parchedigion Trefor Lewis, H.J. Hughes, w.r. Williams a'r Canon Glyndwr Williams. Diolch i Mrs. Jennie Williams a Mr. D. Lloyd Hughes am eu cyfraniad ac hefyd i Mrs. M. Fleming, Mrs. Renee Morris a Mrs. K. Lloyd Hughes, Maes Eilian. Diolch i Mr. Myrddin Pritchard am y trefniadau angladdol.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W.O. Williams, Tŷ Capel Disgwyfya (Llanberis 871259)

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL - Nos Lun, Ionawr 28, cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mr. John Emrys Morris, Clwt-y-Bont, a'r Seindorf. Adroddodd Mr. Morris hanes y Seindorf sydd yn 150 mlwydd oed y flwyddyn yma. Camp go fawr o gofio fod dau ryfel yn ystod y cyfnod yma. Bu ef yn aelod ers pan yn ifanc iawn a hefyd yn llewni bwlch fel arweinydd ar fyw nag un cyfnod. Cymaint yw ei ddiddordeb o hyd yn hanes y Seindorf, mae wedi penderfynu ysgrifennu llyfr. Edrychwn ymlaen yn fawr at ei gyhoeddi! Da oedd gweld aelodau ifanc o'r Seindorf yn fechgyn a genethod.

Diolchwyd idynt gan y Llywydd, Y Parch Trefor Lewis ac ategwyd gan Y Parch Erfyl Blainey a Mr. John Jones. Terfynwyd y noson yn hyrhyd iawn trwy i'r arweinydd presennol drosglwyddo y 'baton' i Mr. Morris a phawb yn ymuno trwy ganu Hen Wlad fy Nhadau.

Y SEINDORF - Ar nos Sul, Chwefror 3, cynhaliwyd Cyfarfod Blyneddol y Seindorf. Y Cadeirydd oedd Mr. G. Parry, B.A., Cynefin. Cafwyd adroddiad boddhaol iawn o'r fantolen am 1984.

Cydymdeimlwyd â theuluoedd y rhai a gollwyd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Aethpwyd ymlaen i ddewis Pwyllgor am y flwyddyn nesaf. Pasiwyd yn unfrydol fod y pwyllgor presenol i sefyll am flwyddyn arall, ond yr oedd Mr. Evan B. Roberts, Dinorwig yn dymuno cael ymddiswyddo, felly pasiwyd i godi dau aelod newydd, sef:-

Mr. Owie Parry, 13 Hafod Olau
Mr. Len Parry, View Terrace.

Y mae'r flwyddyn hon yn flwyddyn bwysig iawn yn hanes y Seindorf. Bydd yn dathlu 150 o flynyddoedd, ac y mae llawer o weithgareddau ar dro. Ar Ebrill 19, bydd Cyngerdd yng Nghapel Ebenezer. Hefyd mae Mr. J.E. Morris, Clwt-y-Bont (cyn aelod) yn ysgrifennu llyfr o hanes y Seindorf.

Os oes gan rhywun yn rhywle hen lun o'r Seindorf, byddwn yn falch iawn o gael ei fenthg. Cysylltwch â Gwyn

Dyddiadau i'w Cofio (Deiniolen)

Erill 9 - Noson yng nghwmni Mr. Dafydd Wigley A.S. a'r Cyng. Pat Larsen yn y Ganolfan, Deiniolen.

Mai 22 - Cyng. Dafydd Orwig yn annerch aelodau o gangen Deiniolen o Blaid Cymru, yn y Ganolfan.

Mehefin 8 - Taith ddiregel Cangen Plaid Cymru, Deiniolen.

Gorffennaf 13 - Helfa Drysor, Cangen Plaid Cymru, Deiniolen.

Parri, Cynefin.

Penderfynwyd fod y Seindorf yn cystadlu yng nghystadleuaeth Pontins, Southport ar ddydd Gwener y Groglith, Ebrill 5. Daethant yn ail yn y gystadleuaeth hon y llynedd allan o 22 o fandiau.

Yr hyfforddwr proffesiynol fydd Mr. Nicholas Childs (Grimthorpe Colliery Band). Os am fwy o wybodaeth cysylltwch a'r yssgrifennydd Mr. Meirion Jones, Minafon, Clwt-y-Bont, neu'r trysorydd Mr. Hefin G. Jones, Llanrug.

PRIODAS

Ar Ragfyr 15, yn Swyddfa'r Cofrestrydd yng Nghaernarfon, priodwyd Alan Wyn Williams, mab hynaf Mr. a Mrs. R.O. Williams, Arfon House, Stryd Fawr, Deiniolen, a Nora Ann Griffiths, unig ferch Mr. a Mrs. Pyrs Goronwy Griffiths, Deulyn Villa, Ffordd Clynnog, Penygroes.

Y forwyn oedd Miss Wendy Hughes, cyfnither y briodferch, a'r gwas oedd Eurwyn Grindley, ffrind y priodfab. Cafwyd y wledd ym Mhlas Tan Dinas, gydar' parti nos yn Nolbadarn. Mae'r cwpwl ifanc am gartrefu yng Nghlyn Villa, Ffordd Clynnog, Penygroes. Gosodwr peiriant pwyso yw Alan, gyda Chwmni Clogwyn, Clwt-y-Bont, Deiniolen.



DIOLCHIADAU - Carai Nora ac Alan ddiolch yn fawr iawn i'r ddau deulu, cymdogion a holl ffrindiau am y cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas.

DIOLCH

Dymuna Andrea Williams, 12 Rhos Faenol, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl arian ac anrhegion a chardiau a gafodd tra bu yn Ysbyty Alder Hey, Lerpwl yn ddiweddar. Hefyd i'r doctor a'r nyrsus fu'n gofalu amdani.



STRYD FAWR, DEINIOLEN Ffôn Llanberis 871210

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.

HEFYD YN SIOP
FFYNN A CHERRIG
STRYD FAWR, LLANBERIS



BECWS DEINIOLEN
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr **CALOR GAS**

Deiniolen (parhad)

PLAID CYMRU

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen yn y Ganolfan yn ddiweddar, gyda Mr. Gwyn Parry yn y gadair. Etholwyd Mr. Owie Gibson a Mr. Dafydd Wyn Williams yn aelodau newydd o'r pwyllgor. Yn ddiweddarach, cafwyd cwmni Mr. Elfed Roberts, trefnydd y Blaid yn Arfon a Meirionnydd-Nant Conwy. Cyfarfu'r pwyllgor newydd ar Ionawr 29, pryd yr etholwyd y swyddogion fel a ganlyn: Cadeirydd - Mr. Gwyn Parry; Ysgrifennydd - Mrs. H.M. Roberts; Trysorydd - Miss Mair Rees Jones. Aethpwyd ati i lunio rhaglen o weithgareddau ar gyfer y chwe mis nesaf.

Enillwyd Clwb Cant mis Ionawr oedd - £10 - Rhif 96

Mrs. E.M. Williams,
8 Ffordd Deiniol

£8.50 - Rhif 98

Mr. Walter Hughes
12 Tai Marian.

ynhelir cinio Gŵyl Ddewi y gangen ar Fawrth yr ail, ym Mhlas Tan Dinas.

Enillwyd Clwb 200 y Seindorf am is Chwefror

1. £25 Mrs. Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen

2. £15 Mrs. Eifion Williams, 39 Rhydfadog

3. £5 Mr. Eric Jones, 53 Pentre Helen

Y GRAITH

Hen deimladau dwys a chas,
Dweud ffarwel i'r garreg las;
Cefnu byd y clogwyn tal,
Y twll a'r bonc, y sied a'r wal

Dringo'r graig i fynyr allt,
Bywyd blin 'di britho'r gwallt;
Cofio oes o lafur drom,
Y cyflog sâl, yr hwyl a'r siom.

'Cyfri Mawr' a'r wên dros dro,
Craith ar 'sgyfaint, ac ar go;
Teulu mawr mewn tai a thlodi,
Craith ar galon Bro Eryri.

Rhannu'r dorth, y tē a'r jam,
Amau neb, na gofyn pam?
Plygu glin i ŵr y Plas

Dan drem y stiward gosod cas.

Ni wyddai am ddim byd gwell,
Dyddiau cynnar 'nawr mor bell;
Atgof chwerw-felys sur,
Corn y caniad a chllinc y dur.

John V. Morris
Rhianfa

DIOLCH

Dymuna Mrs. Lewis, 4 Rhes Vaenol, ddiolch yn garedig i'r Doctor a'r nrosts a chymdeirion am eu gofal drystol tra ym derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar

De clywed fod Dylan Lewis, mab Mr. a Mrs. A. Lewis, 36 Rhydfadog yn gwella ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd Mr. John Roberts, 47 Rhydfadog.

Dymuniadau gorau iddynt a llwyr wellhad.

PRIODAS - Dydd Sadwrn, Chwefror 16 yn Nant Padarn, Llanberis, priodwyd Mr. Eifion Jones, mab Mr. a Mrs. H. Jones, Dorlan Goch, Clwt-y-Bont, Deiniolen a Miss Ann Evans, 43 llys Gwyn, Caernarfon (Castle Gift Shop, Llanberis Gwyn). Gwasanaethwyd gan y Parch Gwynfor Williams, Bethesda. Y gwas oedd David Evans, Llanberis.

Cafwyd y wledd briodas yn Ngwesty Victoria, Llanberis a chynhaliwyd disco gyda'r nos.

Y mae Eifion yn athro yn Llanrwst ac Ann yn gweithio mewn Llanrhyddfa Deithio ym Mangor. Byddant yn ymgartrefu yn 36 Glanffynon, Llanrug.

DIOLCH

Dymuna Mrs. Mary Jones, 4 Y Bwthyn ddiolch o galon i'w phlant a'i brawd ac i'r holl gyfeillion a chymdeirion am y llwyr anrhegion a chardiau a gafodd pan yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed.

DIOLCH - Dymuna Ieu a Nia, 8 Tai Gwledfa, ddiolch o galon i'w perthnasau, ffrindiau a chymdeirion am y llwyr anrhegion arian a chardiau a dderbyniwyd ar enedigedd eu mab bach Trystan Ellis, sef brawd bach i Jennie Lyn. Diolch hefyd i bawb a fu'n gofalu.

Bydd TOCYNNAU MANTAIS BWS yn cael eu dosbarthu yn Yn Ganolfan, Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen, dydd Mercher, 13, o 2 hyd 4 o'r gloch.

DYMUNIADAU GORAU - i Barry Wardle, oddi wrth y teulu a'r hogiau i Gymreig (R.W.F.) Y mae yn awr ar ei ffordd i Ynysoedd y Falklands.

DIOLCH - Dymuna Mr. Owen Hughes, 50 Rhydfadog, ddiolch i'w deulu, cymdeirion a'i gyfeillion, am eu caredigrwydd tra yn yr ysbyty, ac ar ôl ddeud adref. Hefyd i'r meddygon a'r gŵelwyrddesau yn Ysbyty Gwynedd.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cynhaliwyd yfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Chwefror 4 gyda'r Is-lywydd Mrs. J. Eirlys Williams yn arwain yn absenoldeb y llywydd Mrs. Williams y llythyr misol. Y gŵr gwadd oedd Mr. W.J. Ames, Ysgolfeistr Ysgol Gwaun Gynfi. Cawsom noson ddifyr iawn.

Diolchwyd iddo gan yr Is-lywydd a Mrs. Rita Parry Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs. Dilys Williams a Mrs. Beti Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs. Eirlys Lloyd Jones.

Croesawyd Mrs. Rita Parry Jones yn ôl ar ôl ei gwaledd. Dymunodd yr Is-lywydd ben blwydd hapus i Mrs. Mary Thomas a oedd yn 81 oed.

Llongyfarchwyd Miss Moeller hefyd ar enill yn Eisteddfod y Sefydliad ym

Mrynrefail yn ddiweddar. Cafodd Miss Moeller y wobr gyntaf am ganu, ail am limerig, ac ail am siarad ar y pryd.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 4, pan gynhelir swper i'r pensiynwyr.

CIP AR DDEINIOLLEN

(ymateb un o'n darllenwyr)

Hen ysgol wedi cau a'i ffenestri drylliog
A'r cwrllle gwibial'r plant yn warth gan sbwriel,

Y muriau cadarn yn fylchau wifren bigog
A'r meysydd gwair yn gorsydd brwynog,
Y ffosydd dyfnion wedi tagu gan ddiog
A'r llwybrau difyr yn angherddadwy gan

Ddrain a mieri a phob rhyw geriach.
Yr afon swnllyd a'i dyfnion byllau
Cuddfan yn ysliwod a'r brithyll lliwgar
Yn fedd hen geir a thrwch o goed epilgar.

Y pentref bywiog a'i siopau niferus,
Nid oes a erys ond tair neu bedair,
Dwy siop gig a dwy dafarn, Digon o dai a siopau gweigion.

Un tŷ gweinidog yn gyflym adfeilio
A'r tai capel heb neb i'w gwyllo.
Un gweinidog ar bum eglwys, a'r Ficar hefo tair.
Pe dol'r ffyddloniaid oll ynghyd,
Ni lenwid wedyn y Santes Fair.
Y Ficerdy'n orsaf yr anffodusion.
Dau gapel wedi cau a'r ffyrdd yn gwanio.
Yr ifanc yn dinistrio ac arogli,
A'r hen a'r llesig yn ofni.
Prin yw cerddwyr y llwybr cul
Ond niferus i'r dafarn ar y Sul.
Ein teidiau a godasant y temlau
Ac a gloddiasant ini'r pydewau.
Gwae ni os eu dymchwel a wnawn
A llenwi'r pydewau a baw.
Deffrown o'n cysgadrddwyl ffol
I'w harbed i'r oes a ddaw.

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs. Iris Rowlands, Glanrafon, 872275.

CLWB POBOL Y CWM - Cyfarfu'r aelodau dydd lau, Chwefror 7fed ac yn absenoldeb y wraig, wddar, Mrs. K. Watkins, drwyd waeledd, darparodd y llywydd, Mr. Llew Hughes, gwis byr ar wybodaeth gyffredinol, ac yn dilyn gyda rhyddid i'r aelodau holi ac ateb ar wahanol bynciau amserol a diddorol. Rhoddwyd y tē gan Mrs. G. Pritchard, Brynodyn y tē gan Mrs. A. Hughes, Bryn, a'r raffl gan Mr. a Mrs. R.H. Parry. Enillwyd y raffl gan Mrs. R. Parry, Bro Rhythallt.

Dymunwn adferiad i'r aelodau sydd yn wael, a thwydd cynhesach i'r rhai sydd yn gaeth oherwydd gerwinder y tywydd presennol.

DIOLCH - Dymuna Swyddogion Capel y Tabernacl ddiolch i bwyllgor Clwb y Graig am eu cyfraniad o £100 tuag at atgyweiriadau'r capel.

DIOLCH - Dymuna Mr. a Mrs. Gwilym Williams, Bryn, ddiolch i bawb am bob caredigrwydd a dderbyniodd Carys tra bu dan driniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

GENI - Llongyfarchiadau i Avril ac Eifion, Glan-y-Don, ar enedigaeth eu merch fach Carys Ann. Wyres gyntaf i Mr. a Mrs. Hugh Jones, Bod Elan.

BEDYDD - Dydd Sul, Ionawr 27ain yn Eglwys Sant Gabriel, gyda'r Rheithor, Y Parch Aled Jones Williams yn gwasanaethu bedyddiwyd Keith, mab bach Mr. a Mrs. Gwilym Williams, Bryn, a dydd Sul Chwefror 10fed, bedyddiwyd Delyth nn, merch fach Mr. a Mrs.

Melfyn Roberts, Glasfryn.

LLONGYFARCHIADAU - I Gwyn Morris, Merddyn, Ceunant (gynt o Glanbogelynn) a Cynthia Orritt, Moranedd ar gyraedd eu penblwydd yn ddeunaw oed.

YN YR YSBYTY - Anfonwn ein cofion gan ddymunio gwellhad buan i Miss Ceridwen Hughers, Craig-y-Don, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.

MARWOLAETH - Trist oedd clywed am farwolaeth Mr. Owen Davies, Stryd y Wyddfa, Llanberis. Mab y diweddar Mr. a Mrs. Evan Davies, Bryn Tirion ydoedd. Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â'i briod Mrs. Myfanwy Davies a'r plant Elwyn a wenda, ei chwaer Mrs. Mair Williams, Elidir View, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

MARWOLAETH - Dydd Sadwrn Chwefror 16 yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs. Edith Owen, Talgwynedd yn 49 mlwydd oed ar ôl cystudd hir a blin a ddiodeffodd yn dawel a dirwgnod. Collwyd cymeriad hynod o hoffus a phoblogaidd a oedd bob amser yn baros ei chymwynas. Yr oedd gofal am ei theulu yn fawr iawn ganddi. Cynhaliwyd gwasanaeth preifat yn y cartref ac yn ddiweddarach daeth cynulleidfarn niferus i'r gwasanaeth yn yr Amlogfa ym Mangor. Gwasanaethwyd gan y Parch Aled Jones Williams a'r Parch Edward Robinson. Daethpwyd a'i llwch i fynwent Llanrug gyda'r Parch Aled Jones Williams yn gwasanaethu. Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â'i phriod Mr. Evan Gwyn Owen a'r plant Susan a Kevin a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

DYWEDDIO - Llongyfarchiadau i Judith, merch Mr. a Mrs. Leslie Orritt a Glyn, mab Mr. a Mrs. Ieuan Roberts, Tŷ Capel y Tabernacl, Porthmadog.

CARNIFAL - Bydd pwyllgor y Carnifal yn cyfarfod am saith o'r gloch ar Fawrth 4 yn y Ganolfan. Croeso cynnes i bawb sydd a diddordeb mewn cael Carnifal yn ystod yr Haf.

UNDEB Y MAMAU - Cynhaliwyd cyfarfod i Aelodau Undeb y Mamau yn y Ganolfan nos Fawrth, Chwefror 12. Y gŵr gwadd oedd y Parch Aled Edwards, Peniarwaun. Dechreuwyd y cyfarfod drwy weddi, ac yna cafwyd sgwrs a ffilmiau aelod y gŵr gwadd am ei daith i Israel. Gellir gweld y Glo oedd yn gyfrifol am y lluniaeth a diolchwyd iddynt gan Mrs. V. Jones, Llanrug. Rhoddwyd y raffl gan Mrs. G. Roberts a Mrs. H. Orritt a Mrs. M. Barlow o Lanrug a'i henillodd.

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)

Y FELINHELI 670124 (Nos)



**I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCH...**

**Osmond
W. Shaw**
DEINIOLEN

Ffôn:

LLANBERIS 870545
Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore

COGINIO YN NYDDIAU'R 'OEL-STOF'

Wrth astudio'r grefft o goginio ac adnoddau coginio yng Nghymru yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, y mae'n rhaid rhoi ystyriaeth arbennig i'r 'oel-stof'. Yng ngogledd America yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg y cynhyrchwyd y ffyrnau hyn yn y lle cyntaf, ac yn arbennig yn y Gorllewin lle'r oedd y gwladfawyr yn llwyr ddibynnol ar goginio ar dân agored neu yn y ffwrn wal-popty mawr. Cafodd yr 'oel-stof' ei rhoi ar y farchnad yn America tua 1830 a daeth enghreifftiau i'r wlad hon erbyn yr Arddangosfa Fawr yn Llundain (1851). Er hynny, rhaid oedd aros tan Arddangosfa Paris yn 1878 cyn gweld yr enghreifftiau cyntaf o'r ffyrnau oel a ddaeth, yn ddiweddarach, yn boblogaidd iawn yn Nghymru a Lloegr. Gwnaed y modelau cynnar gan gwmni o'r enw Besnard and Maris, cwmni a oedd eisoes yn enwog am wneud lampau olew.

Ar gyfartaledd, roedd y ffyrnau hyn yn weddol rad i'w prynu ac yn gymharol fach o ran eu maint. Roeddent yn addas iawn i'w defnyddio naill ai mewn bwthyn neu mewn ffermdy cyffredin. Nid oedd cymaint o alw amdanynt yn y trefi, o bosibl, ond daethant yn boblogaidd iawn yn yr ardaloedd gwledig yng Nghymru lle nad oedd modd defnyddio trydan na nwy, a bu defnyddio cyson arnynt yno tan ddiwedd y pedwardegau ac ymlaen i bumdegau'r ganrif hon.


Yn wir, bu'r 'oel-stof' yn gyfrwng i weddnewid ansawdd coginio yng nghefn gwlad. Hyd yma, cyfyngwyd gwraig y tŷ i baratoi bwydydd oedd yn addas i'w coginio ar dân agored neu mewn ffwrn wal neu bopty mawr. Coginio ar wres lled araf oedd y dull traddodiadol. Yn sgil yr 'oel-stof', cafwyd modd i goginio ar wres y gellid ei reoli, a bu hynny'n newid byd i'r wraig a'i theulu. Yn y gyfrol *The Family Cookery Book* (1920) gan Mrs Beeton, cyhoeddwyd hysbyseb am 'oel-stof' a wnaed gan

yr *Anglo-American Oil Company* ac a werthwyd yn y wlad hon o dan yr enw *Valor-Perfection*.

Bu modelau'r cwmni hwn yn boblogaidd iawn yng Nghymru. Dyma'r broliant a geir ar yr hysbyseb: 'Built to save time, work and worry, the *Valor Perfection* stands supreme. It has new double-wall chimneys that concentrate all the cooking heat where it is required ... A tender, juicy roast, vegetables perfectly cooked, sweets so delicious that they melt in the mouth, no wonder the family are proud of Mother's cooking and she of her wonderful *Valor-Perfection Oil Cooking Stove*'.

Cefais fy magu mewn ardal wledig ac rwy'n ferch i un o'r mamau hynny a oedd yn falch iawn o'i ffwrn *Valor* yn y pedwardegau cynnar. Daw dŵr i'm dannedd heddiw wrth gofio am y ciniawau rhost a'r pwdinau ysgafn a ddeuai allan o'r 'oel-stof' o dan ofal fy mam. 'Rwy'n cofio hefyd fel y bu'n arbrofi wrth goginio 'teisennau newydd' ar ein cyfer fel teulu. Cofiaf amdani yn troi ei llaw, am y tro cyntaf, i wneud cacen sbwng *Fictoria*, teisennau bach fel *queen-cakes*, a *maids of honour* a'u crasu'n llwyddiannus yn y ffwrn newydd. Hyd yma, ni welwyd danteithion ysgafn o'r math hyn ar y bwrdd te mewn cartrefi yng nghefn gwlad. Yn raddol, gweddnewidiwyd y byrddau adeg parti penblwydd a the mewn festri capel ac eglwys. Rhoddwyd lle amlwg i'r cacennau sbwng a'r mân-ddanteithion eraill, y cyfan wedi'u haddurno'n lliwgar, a rhoddwyd o'r neilltu y bara cyrens a'r teisennau radell cyffredin. Yng nghefn gwlad yn y pedwardegau, bu'r oel-stof iawn mor chwyldroadol o safbwynt coginio ag y mae'r ffwrn micro-don heddiw.

Yn ei llawlyfr ar goginio ceir gan Mrs Beeton gynghorion ynglŷn â defnyddio a chynnal a chadw'r 'oel-stof'. 'Great care must be taken



to see that the stove is kept clean, otherwise the food is apt to be tainted and the room will be filled with smoky fumes. It is impossible to attach too much importance to this matter of cleanliness, for nothing is more unpleasant than the taste of oil in food. Oil stoves must not stand in a draught... If proper care is exercised, excellent results may be obtained."

Byddai fy mam yn talu sylw arbennig i gadw'r ffwrn yn lân bob amser, ac ni chofiaf am gael arlliw o flas oel ar y bwyd ar unrhyw achlysur. Er hynny, ni allaf anghofio ambell i brofiad brawychus a gefais yn nyddiau'r 'oel stof'. Yn unol â phatrwm cymdeithas wledig gynt roedd croeso i ymwelwyr ar y fferm bob amser. Byddai cael cwmni pregethwr dieithr i ginio dydd Sul yn arfer cyffredin. Byddai'r ffermdai, ar y llaw arall, yn cael yr enw o fod yn oer a drafftig. Cofiaf am y tro pan oedd y cig yn rhostio'n braf yn yr 'oel-stof', a'r llestri cinio wedi'u gosod ar y bwrdd yn yr ystafell orau. Yn sydyn daeth chwythwm o wynt drwy ffenestr neu ddrws led-agored gan gydio yn y fflam las, loew a'i achosi,

ar amrantiad, i lanw pob twll a chornel o'r tŷ â mwg du. Roedd llinynnau du fel gwe pryf copyn yn hongian o'r nenfwd a'r dodrefn, a llwch du yn gorchuddio'r llestri. Doedd dim modd cuddio'r gyflafan a glanhau'r tŷ mewn pum munud. Er mynd ati'n ddiymdroi i wneud y gorau o'r gwaethaf, rhaid oedd ymddiheuro i'r gŵr gwadd am droeon trwstan y taclau modern!

Yn perthyn i'r un cyfnod ac yn cael ei chynnau ag olew parffin oedd y stof *primus*. Roedd y stof hon yn declyn hwylyd iawn ar gyfer berwi a ffrio bwydydd yn ogystal â phoethi'r haearn smwddio. Nid oes gennym enghreifftiau o'r 'oel-stof' nac o'r stof *primus* yng nghasgliad offer tŷ Amgueddfa Werin Cymru. Y mae eu hangen arnom. A ellwch chi ein helpu? Byddaf yn ddiolchgar iawn am eich cydweithrediad i gysylltu â mi os gwyddoch am enghreifftiau sydd wedi goroesi.

Y cyfeiriad yw:
Mrs S.M. Tibbott,
Adran Adeiladau a Bywyd Cartref,
Amgueddfa Werin Cymru,
Sain Ffagan,
Caerdydd CF5 6XB

COLEG PRIFYSGOL CYMRU ABERYSTWYTH

GRADDAU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG I FYFYRWYR ALLANOL

Mae'r Coleg yn cynnig cynllun gradd BA Prifysgol Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr allanol, a gwahoddir ceisiadau am le o fewn y cynllun yn Hydref 1985. Bydd myfyrwyr allanol yn dilyn cyrsiau yn y pynciau a ganlyn:

RHAN 1 Tri phwnc o blith ADDYSG, ASTUDIAETHAU, CREFYDD, CYMRAEG, DRAMA (ASTUDIAETHAU THEATR), HANES CYMRU, LLYDAWEG, CERDDORIAETH

RHAN 2 Anrhydedd Sengl mewn CYMRAEG neu
Anrhydedd Cyfun mewn dau o'r canlynol:
ADDYSG, CYMRAEG, DRAMA, HANES CYMRU, CERDDORIAETH

Cynigir cynorthwy arbennig i fyfyrwyr allanol drwy ohebiaeth a chyswllt personol rheolaidd. Darperir nodiadau a chanllawiau manwl ar y cyrsiau, ynghyd â darlithiau ar gaset mewn rhai pynciau.

Astudir Rhan 1 dros 1-3 blwyddyn yn ôl dewis y myfyriwr. Bydd Rhan 2 yn estyn dros 4 blynedd fel arfer.

Gellir cael manylion am y cynllun a ffurflenni ymgeisio oddi wrth Hywel W Jones, Uwch-Ysgrifennydd Cynorthwyol, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Gwahoddir ceisiadau erbyn 12 Ebrill 1985.

NEUADD BETHEL

Yn eisiau, dau berson

1. Un i gadw goriad y Neuadd ac i ofalu am y golau a'r gwres,
2. Ac un i lanhau y Neuadd.

am fwy o fanylion cysyllter a:-

Mrs. Mair Read, Llwydiarth, Bethel

BETH YW AROGLI GLUD?

Golyga aroglu glud anadlu'r tARTH a ryddheir gan fathau arbennig o lud er mwyn mynd yn benysgafn, yn union fel meddwi ar alcohol. Yr elfen sy'n creu'r effaith hon yw'r toddydd a gynhwysir mewn llawer math o lud, yn ogystal ag mewn nifer o gynhyrchion domestig a diwydiannol eraill.

PAM Y MAE PLANT IFANC YN ANADLU GLUD?

Mae'r rhesymau pam y mae pobl ifanc yn aroglu glud yn amrywio o unigolyn i unigolyn. Fel arfer gwnânt hynny o ran chwilfrydedd. Bydd rhai plant yn gwneud hynny am eu bod eisiau perthyn i grŵp lle mae aroglu'n digwydd bod yn rhan o weithgareddau'r grŵp. Mae aroglu hefyd yn ddewis rhad a hawdd yn lle alcohol, yn enwedig pan nad ydych o oedran yfed. Gall plant eraill fod yn anhapus am nifer o resymau posibl a gallant droi at aroglu i dynnu sylw neu ddianc rhag eu problemau. I'r mwyafrif o bobl ifanc nid yw'r ddim mwy na chwiw sy'n mynd heibio, ond i rai gall ddatblygu'n arferiad peryglus.

BETH YW'R PERYGLON?

Wrth anadlu tARTH gwenwynig, bydd pobl mewn perygl o:

Ddamweiniau a all ddigwydd yn haws pan fydd rhywun yn benysgafn.

Mygu

Niwed corfforol a seicolegol posibl yn y tymor hir.

(Mae rhai pobl ifanc wedi marw o gynlayniad uniongyrchol neu anuniongyrchol i aroglu glud neu dddyddion eraill)

BETH YW'R ARWYDDION?

Dyma'r arwyddion amlycaf y gallai person ifanc fod yn aroglu glud:

Arogl cemegol ar yr anadl neu olion glud neu dddyddion eraill heb eglurhad naill ai ar y corff neu ar ddillad.

Diddordeb sydyn heb eglurhad mewn glud, farnais ewinedd neu gynhyrchion eraill sy'n seiliedig ar dddyddion.

Gallai cyfuniad o'r canlynol hefyd awgrymu aroglu glud: Y croed yn anarferol o arw neu goch o gwmpas y geg, y trwyn neu'r llygaid.

Peswch poenus, cyson.

Siarad yn aneglur.

Tymer ddrwg neu orlog yn sydyn a hwyrach geisio celu symudiadau.

Dirywiad sydyn ac annodweddiadol mewn gwaith ysgol, o bosibl ynghyd â dechrau chwarae triwant.

BETH ALLWCH CHI WNEUD?

Mae plant yn aml yn chwilfrydig ac yn hoffi arbrofi gyda'r chwiw diweddaraf. Os credwch y gallai eich plentyn fod yn cymysgu gyda phobl ifanc sy'n aroglu toddyddion, gallech siarad â'ch plentyn a'i rybuddio am y peryglon posibl. Cofiwch beidio â 'neidio i mewn' heb feddwl yn ofalus sut y byddwch yn trin y sefyllfa.

Bydd plant weithiau'n dechrau aroglu am eu bod wedi diflasu. Ceisiwch annog eich plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau diddorol megis clybiau ieuenctid a chwaraeon, a chefnogwch ymdrechion eich plentyn yn y gweithgareddau hyn a phethau tebyg.

Mae eich diddordeb a'ch cefnogaeth yn bwysig i'ch plant. Ceisiwch eu cael i siaradâ chi am unrhyw ofidiau neu broblemau sydd ganddynt.

Dysgwch eich plant i ddefnyddio cynhyrchion domestig at y diben iawn yn unig. Dysgwch nhw i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau ar y label am ddiogelwch.

Ewch ar drywydd unrhyw achos anarferol o ddefnyddio glud, farnais ewinedd neu

gynhyrchion eraill sy'n seiliedig ar dddyddion.

MEWN ACHOS BRYS

Peidiwch â chynhyrfu. Mae'n bwysig i chi fod yn bwylllog. Ewch â'r glud neu'r toddyddion o afael eich plentyn a gwneud yn siŵr ei fod yn cael digon o awyriach. Os yw'r plentyn yn gysglyd neu'n anymwybodol, rhowch ef i orwedd ar ei ochr.

Gwnewch yn siŵr fod rhywun yn aros wrth law. Wedyn, os bydd y plentyn yn sâl, gellir


ei atal rhag anadlu neu lyncu ei gyfog.

Pan fydd y plentyn yn diuno, rhowch sicrwydd iddo; mae'n debygol o fod yn gymysglyd ac wedi cynhyrfu.

Os yw'r plentyn yn anymwybodol, cysylltwch â'r meddyg teulu ar unwaith. Os nad yw'r meddyg ar gael, deialwch 999 a gofyn am ambiwlans.

Ar ôl y digwyddiad, rhowch gyfle i'r plentyn siarad am y digwyddiad ac am unrhyw beth arall a all fod yn ei boeni.

CABAN FFONIO RHAG Y FANDALIAID



Mae'r caban ffonio coch traddodiadol wedi ei fandaleiddio cymaint ym Mhontrhythallt, mae British Telecom yn honni ei bod yn rhy ddrud i'w atgyweirio. Y dewis felly yw bod heb ffôn cyhoeddus, neu fodloni ar y math sydd yn y darlun - y math o ffôn a osodir yn ardaloedd gwaethaf y dinasoedd mawr. Ydi ardal Pontrhythallt wedi dirywio i'r fath raddau? Dyma drydydd rhifyn yr 'Eco' yn olynol i roi sylw i broblemau fandaleiddio'n y fro. Da chwi, drethdalwyr, eich arian **chi** sy'n cael ei wario i ail-godi ac i atgyweirio'r cabanau ffôn, cysgodfannau bws ac yn y blaen. Mae'n hen bryd i'r fandaliaid hyn gael eu dal.

DEWCH I GAREJ MINFFORDD BETHEL


Ffôn: Y Felinheli 451

I WELD Y ROVER 216 NEWYDD

HEFYD CERBYDAU
ERAILL DIGURO B.L.

F'ech heriwn i
ganfod gwell fargen

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs. G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)

DIOLCH

Fe hoffai Alfie a Heulwen, 'Cyrnant Lodge' diolch i bawb am eu caredigrwydd tra bu Gerallt yn yr ysbyty. Diolch yn fawr iawn.

SEFYDLIAD Y MERCHED

Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror yn Festri Capel Croesywaun gyda Mrs. Pat Parry yn y gadair. Cydymdeimlodd â Mrs. O. Parry Williams yng ngwaeledd ei gŵr a dymunodd wellhâd buan iddo. Estynnodd longyfarchiadau i Mrs. C.A. Jones ar enedigaeth ŵyr arall. Croesawodd Mrs. Parry ddwy aelod newydd i'r Sefydliad - Mrs. Fairhurst a Mrs. Deedman. Tynnwyd sylw at faterion o ddiddordeb yn y llythyr misol. Bydd Mrs. Wyn Jones yn cyrychioli'r sefydliad yn y Cyfarfod Blyneddol yn Ysgol Syr UHugh Owen ar Chwefror 16. Bydd rhai aelodau yn ymuno ag aelodau Sefydliad Arfon yng Ngwesty Plas Tandinas ar Chwefror 20 i wau ar gyfer anffodusion Ethiopia. Gwnaeth Mrs. Morgan Jones apêl am nwyddau ar gyfer stondin sydd i'w gynnal yn ystod eu tē prynhawn ar Chwefror 28. Mrs. F. Treen, M.B.E. oedd y wraig wadd. Rhoddodd sgwrs ddiddorol iawn ar Lân Gwerin a chwedlau Cymru. Diolchwyd i Mrs. Treen gan Mrs. C.A. Jones, Enillwyd y raffl gan Mrs. Morgan Jones. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Fawrth 7, pryd y ceir sgwrs gan Mr. Emyr Jones, Caernarfon.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL - Oherwydd y tywydd garw bu raid gohirio cyfarfod fis Chwefror o'r Gymdeithas Lenyddol. Cynhelir y cyfarfod nos Lun, Mawrth 4 yn y Ganolfan pan y ceir dadl ar y testun 'Mae'n rheidrwydd ar y presennol ddibynnu llawer ar y gorffennol'. Bydd y tymor llwyddianus a gafwyd yn dod i ben nos Lun, Mawrth 11 pan y ceir swper i'r aelodau gydag adloniant gan ddoniau lleol. Y gŵr gwadd fydd Mr. Dei Tomos, Nant Peris, gynt o'r Waun. Os oes rhywun yn dymuno rhoi nwyddau at y swper a fyddent cystal a chysylltu a Mrs. Meira Turner, Colfryn.

MERCHED Y WAWR - Cyfarfu'r gangen nos lau, Ionawr 24, dan lywyddiaeth Mrs. Olwen Williams. Croesawyd Mrs. Gillian Brown, Gwelfor, yn aelod newydd, a chydymdeimlwyd â Mrs. Brenda Jones, Betws Garmon, sydd wedi cael llawdriniaeth yn yr ysbyty. Llongyfarchwyd Mrs. Gweneirys Jones ar fod yn nain am yr eildro. Ganwyd ail fab i Trystan a Caroline. Y siaradwr oedd y dramodydd W.R. Lewis, o Langefti, a chafwyd noson ddiffr iawn. Diolchwyd i Mr. Lewis gan Mrs. Mary Vaughan Jones. Rhoddwyd y raffl, a enillwyd gan Mrs. Iris Owen, gan Mrs. Beryl Jones. Paratowyd y tē gan Mrs. Nan Hughes Roberts, Mrs. Gillian Wyn a Mrs. Alma Jones.

Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 28 pryd y cawn noson o Rannu a Blasa ynghŷd â sgwrs gan Mrs. Gweneirys Jones.

CLWB GWYRFAL - Croesawyd y Rheithor, Y Parchedig Barry Thomas fel Llywydd y Clwb yng nghyfarfod Ionawr 31.

Ein gŵr gwadd oedd Dr. H. Roberts, a cawsom awr ddiffr a hwyliog yn ei gwmni. Testyn ei sgwrs oedd sut i edrych ar ol ein hunain, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf, a hefyd y modd i osgoi damweiniau yn y cartref.

Cynorthwywyd Dr. Roberts mewn dulliau ymarferol gan y Rheithor, hefyd y ffordd i roi cymorth cyntaf mewn achosion o argyfwng.

Diolchwyd ar ein rhan gan Mrs. Overy - hefyd i Mrs. Luned Roberts a Mrs. Jennifer Jones am baratoi y tē. Enillwyd y raffl, rhodd Mrs. Jones Evans gan Mrs. Bennet.

CLWB GWYRFAL - Chwefror - Ar Chwefror 14 daeth Uned o'r BBC, Bangor, sef Mr. E. Wyn Jones a Lyn Davies, gyda'r Athro Bedwyr Lewis Jones a hefyd Mr. Gareth Heulfryn o Archifdy Gwynedd ar ymweliad a'r Clwb. Recordiwyd rhaglen 'Ar Gof a Chadw' fydd i'w chlywed ar Radio Cymru.

Aelodau o'r Clwb a gymerodd ran oedd Mrs. Austin Jones, Mrs. Morgan Jones, Mrs. M. Lloyd Jones, Mrs. Jones, Eilian Terrae, Mrs. Miles, Y Rheithor Y Parchedig Barry Thomas a Dr. Miles. Rhoesant i gyd atgofion cynnar o'u cyfnod cynnar yn y Waunfawr. Rhoddwyd y Rheithor hanes Eglwys y Plwyf ym Metws Garmon ac yn ddiweddarach yn y Waen, a'r Athro Bedwyr Lewis Jones yn egluro hanfod geiriau ac enwau lleol.

Roedd yn gyfarfod difyr dros ben, ac er y tywydd eithriadol o oer, cafwyd cynulliad da. Enillwyd y raffl gan Miss Katie Roberts.

YR YSGOL FEITHRIN - Cynhelir Noson Goffi yn y Ganolfan, nos lau, 7fed o Fawrth, 1985 am 6.30 o'r gloch. Bydd amryw o stondinau a raffl.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR - Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Ionawr:

1. £40 R.L. Parry, 4 Eilian Terrace
 2. £25 Victor Davies, Hafod Wen
 3. £10 D.E. Caulfield, Pentre Bach
- Drwy haelioni Dr. Huw Roberts yn ad-dalu dwy wobwr a enillodd mis Rhagfyr, talwyd dwy wobwr ychwanegol o £10. Yr enillwyr oedd: John Griffith Jones, Hafod y Rhug Cenin Griffith, Glan Conwy

YR URDD - Ar Ionawr 23 cafwyd noson yn llawn hwyl yng nghwmni Sion a Sian, sef John a Cadi Jones, 'Nant', a'r wythnos ganlynol cafwyd noson o chwarae hoff recordiau gyda Mrs. Alma Jones a Gwyneth Ellis.

Ar Chwefror 6ed, daeth dau ymwelydd a'r Urdd, a chawsant dderbyniad brwd iawn. Daeth Mr. Arthur Rowlands i siarad a'r plant, ac wrth gwrs, 'roedd Defi ei labrador gydag ef. 'Roedd hon yn noson gofiadwy iawn i'r plant.

Yr wythnos ganlynol ar Chwefror 13, cafodd y plant hwyl gare hefo Mr. Richard Lloyd Jones, Bethel, yn tynnu lluniau o'r pentref, a chael posau ganddo.

Diolch i'r ddau am roi eu hamser i ddod atom i'r Waun.

Yn y cyfarfod nesaf, Chwefror 20, un o'r Waun fydd yn dod atom, sef Mr. Duncan Brown, 'Gwelfor'. 'Rwyn siwr y cawn noson ddiffr iawn.

CLWB 100 PLAID CYMRU Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fis Ionawr:

1. Olwen Williams, Lliadiart Wen
2. Gwynn Davies, Bryn Eithin
3. Gwilym Hughes, Tref Eilian

ADREF AR WYLIU - yn ddiweddar o Thailand daeth Ronald Hughes i aros hefo'i fodryb Mrs. Mracegirdle, yn Nhref Eilian. Maes eisoes wedi dychwelyd yn ei ôl.

YN YR YSBYTY - MAE Mr. John Williams, Hendre. Dymunwn wellhad buan iddo.

ADREF O'R YSBYTY - Bu Kevin Parry, Bro Waun, Capt.A. Kackson, 'Trigfa', a Mrs. L. Evans, 'Tegfan', yn yr ysbyty yn ddiweddar yn derbyn triniaeth llaw feddygol. Gobeithiwn eu bont yn gwella, a hefyd Gerallt Jones, 'Cyrnant Lodge', ar ol ei arhosiad yntau yn yr ysbyty.

CYDYMDEIMLO - Cydymdeimlwn

â Mrs. L. Evans, 'Tegfan', a Mrs. Grace Griffiths, 'Tan Rallt', ar golli brawd, sef Mr. G.Y. Jones, Bryn Garage, Waunfawr.

Hefyd â Mr. Emllyn Williams, 'Aneddle', Stad Bodhyfryd, ar golli tad, ac â Miss Bessie Jones, Bod Arthur, ar golli chwaer.

LLONGYFARCHIADAU - I Wendy Eaglestone, 'Tremallt', ar ei phriodas â Gerald Terschowitz yn West Bromwich. Maent yn ymgartrefu yn West Bromwich, lle mae Wendy yn dilyn ei gwaith fel nyrs.

I Gwenno Grey Owen, 'Noddfa', ar ei phriodas â Selwyn Williams o Benygroes. Maent yn ymgartrefu yn 'Manllwyd', 1 Gosen Terrace, Groeslon.

CANOLFAN WAUNFAWR - Nos Wener, Chwefror 8fed, cafwyd noson arbennig o dda yng nghwmni Dylan Parry a phlant yr ysgol gynradd. Unwaith eto cafwyd perfformiad o safon uchel gan y plant a chafwyd gwrandawriad perffaith ganddynt i ganu gwyd Dylan. Roeddynt yn amlwg, fel y gynulleidfa, yn ei fwynhau yn arw. Wrth gwrs, 'roedd Norman Williams yn serennu a rhoddodd naws broffesiynol iawn i'r noson. Diolch yn fawr am gefnogaeth y pentref unwaith eto.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael tuag at gostau cynhyrchu'r Eco:

- £5 Mr. a Mrs. W.A. Jones, Dalar Deg, Llanrug. Di-enw, Llanberis
- £2 Mrs. Mair Roberts, 7 Sheperdine Close, Lydney, Gloucester
- £2 - Di-enw, Llanrug
- £2 - Mr. H. Roberts, 14 Stryd y Ffynnon, Llanberis
- £2 - Mr. O. Hughes, 50 Rhydfadog, Deiniolen
- £2 - Mr. a Mrs. A. Roberts, 13 Maes Gwylfa, Deiniolen
- £2 - Mr. a Mrs. R. Jones, Tan y Buarth Uchaf, Dinorwig
- £2 - Mrs. A. Thomas, 1 Bro Elidir, Dinorwig
- £1 - Di-enw, Waunfawr
- £1 - Mrs. Mary Jones, 4 Y Bwthyn, Deiniolen
- £1 - Mr. a Mrs. A. Evans, 32 Stryd Newydd, Deiniolen
- £1 - Mr. a Mrs. I. Morris, 8 Tai Gwledfa, Deiniolen

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**



PRIODAS - Yng Nghapel Glanrhyd ar Chwefror 9 a'r Parch Emrys W. Thomas yn gweinyddu, priodwyd Selwyn Williams, mab Mrs Megan Williams, 1 Bro Llwyndu, Penygroes a Gwenno Gray Owen, merch Mr a Mrs W.T. Owen, 18 Tref Eilian, y gwas oedd Huw Tomos Owen, a'r forwyn oedd Mrs Elisabeth E. Jones. Mae'r par ifanc yn ymgartrefu yn Manllwyd, 1 Gosen Terrace, Groeslon.

DIOLCH - Dymuna Selwyn a Gwenno Williams (gynt o 18 Tref Eilian) ddolch o galon i'w llu teulu, cymdogion a ffrindiau am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas yng nghapel Glanrhyd, Llanwnda ar Chwefror 9fed.

**Seindorf Arian
Deiniolen yn 150 oed
Cyngerdd Dathlu
yn
Eglwys Ebeneser,
Deiniolen ar Ebrill 19,
1985 am 7 o'r gloch
yng nghwmni
TREBOR
EDWARDS
TRIAWD HENDRE
CENNIN
SIAN WYN
GIBSON
SEINDORF ARIAN
DEINIOLEN**

Arweinydd - Geraint
Lloyd Owen,
Bontnewydd

Tocynnau ar gael gan
aelodau'r Seindorf

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

**CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR**



Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)

**GWLAU SENGL O £39 I FYNY
GWLAU DWBL O £75 I FYNY
DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800**


LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

**5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
- ALLWCH CHI Fforddio prynu o batrymau?**

**AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn**

**AR GAU
SUL,
MERCHER.**

CROESAIR MAWRTH



AR DRAWS

1. Swyn (7)
7. Coelio (5)
8. Arogl drwg (7)
9. Hudol (6)
11. Llfeiriant (5)
13. Rhan o gyflog a delir i'r Llywodraeth (4)
14. Uniondeb (7)
15. Llais canu (4)
16. Y noson cyn neithiwr (5)
17. Atsain (6)
21. Carreg bwysicaf mewn bwa pont (4,3)
22. Hwyrbryd (5)
23. Y ffordd fawr? (3,4)

I LAWR

2. Cythryblus (10)
3. Anafu (8)
4. Oherwydd (4)
5. Clais (4)
6. Ffwrn i wneud calch (4)
9. Man gwan Achilles (5)
10. Ofnus o'r hyn sy'n anhysbys (10)
12. Eiddgar (5)

13. Anffawd (8)
18. Bara — (4)
19. Israeliaid (4)
20. Un o Apostolion Crist (4)

Un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.

Anfonwch eich cynigion at Gareth Hughes, 27 Bro Rhos, Bethel. Bydd £2 o wobwr i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu.

Atebion Croesair Chwefror

Ar Draws — 6. Gwasanaethwyr. 8. Loetran. 9. Adobe. 10. Iona. 12. Ffermdy. 14. Lagos. 15. Ymdrin. 16. Asti. 19. Oedfa. 21. Ochenaid. 22. Naturiaethwyr.

I Lawr — 1. Cadernid. 2. Labro. 3. Carno. 4. Athrawes. 5. Wylo. 6. Gwleidyddol. 7. Newyddiadur. 11. Tan. 12. Ffôl. 15. Masnachwr. 14. Libanus. 17. Gofid. 18. Lleuen. 20. Dial.

Enillydd — Alwyn Jones, 50 Ffordd Porthmawr, Northville, Cwmbran, Gwent.

Y NANT YN EDRYCH YMLAEN

Bu 1984 yn flwyddyn nodedig iawn i Ganolfan Iaith Nant Gwrtheyrn, gan ddenu mwy o bobl nac erioed o'r blaen ar gyrsiau. Am y tro cyntaf, cafwyd rhediad didor o gyrsiau rhwng diwedd Mehefin a chanol Medi, gan ddenu pobl o bob cwr o Gymru a thu hwnt. Denwyd dechreuwyd, pobl oedd eisoes mewn dosbarthiadau, ac ambell deulu o Gymru Cymraeg. Rhaid pwysleisio bod presenoldeb teuluoedd felly yn cyfrannu'n fawr at naws Cymraeg y pentref ac at holl weithgareddau cymdeithasol yr amrywiol gyrsiau. Am y tro cyntaf hefyd, cawsom y pleser o letya tair ysgol, dwy ysgol uwchradd o Orllewin Morgannwg, sef Ysgol Pentrehafod, Abertawem ac Ysgol Llandeilo Ferwallt, Bro Gŵyr, ac Ysgol Gynradd Gymraeg Gwenffrwd, Treffynnon. Torrwyd tir newydd ym mis Tachwedd hefyd, pan gynhaliwyd cynhadledd wedi'i threfnu gan Mr. Chris Rees i weithwyr cymdeithasol. Mae'r rhagolygon ar gyfer 1985 yn galonogol iawn. Eisoes, trefnwyd cyrsiau ar gyfer chwe mis cyntaf flwyddyn. Yn ystod yr wythnosau nesaf, bydd taflen hysbysrwydd newydd yn cael ei dosbarthu i ddosbarthiadau a chanolfannau Cymru.

Os oes unrhyw un â diddordeb mewn derbyn copiau o'r taflen cysylltwch â ni yn Swyddfa'r Ganolfan ar sgwâr Llithfaen, rhif ffôn 075 885 334. Cafodd y ganolfan galennig derbynol iawn o'r Unol Daleithiau gan ddarlennwyr papur Cymru Gogledd America 'Ninnau'. Danfonodd golygydd y papur, Dr. Arturo Roberts, siec am £1,111 i gronfa'r Nant. Defnyddir yr arian at waith adeiladu pellach yn y pentref.

DYDDIADUR

1. Gwener — LLANBERIS, Te yr Henoed; PENISARWAUN — Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30; YR ARDAL — Dydd Gwedd Byd-Eang y Merched; YR ARDAL — Clwb Eryri yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis pryd y ceir sgwrs gan Mr. Ifor Bowen Griffith.
2. Sadwrn — DEINIOLLEN, Cinio Gŵyl Ddewi Cangen Plaid Cymru ym Mhlas Tan Dinas.
4. Llun — DEINIOLLEN, Sefydliad y Merched yn rhoi swper Gŵyl Ddewi i'r Henoed yn Ysgol Gwaun Gynfi; LLANBERIS, Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30; WAUNFAWR, Y Gymdeithas Lenyddol yn y Ganolfan am 7.30 — Dadl.
5. Mawrth — BETHEL, Gwibdaith y Gymdeithas Lenyddol.
6. Mecher — PENISARWAUN, Yr Urdd — ymweliad â'r Gampfa yng Nghanolfan Hamdden, Caernarfon; BETHEL, Noson Cawl a Chân dan nawdd Pwyllgor yr Ysgol Feithrin yn y Neuadd Goffa am 6.30.
7. Iau — LLANBERIS, Swper Gŵyl Ddewi y Gymdeithas Lenyddol yng Ngwesty'r Gwynedd; WAUNFAWR, Clwb Gwyrfaei yn westeion i Gyngerdd Gŵyl Ddewi gan blant yr Ysgol Gynradd; Sefydliad y Merched — sgwrs gan Mr. Emyr Jones, Caernarfon; Noson Goffi dan nawdd Pwyllgor yr Ysgol Feithrin yn y Ganolfan am 6.30.
9. Sadwrn — YR ARDAL, Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail; Ras Moel-y-Ci, Rhiwlas.
11. Llun — WAUNFAWR, Y Gymdeithas Lenyddol — Swper i gloi y tymor gyda Dei Tomos (BBC) yn ŵr gwadd; LLANBERIS, Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
12. Mawrth — LLANRUG, Cinio Gŵyl Ddewi Merched y Wawr yn y Foelas.
13. Mercher — PENISARWAUN, Yr Urdd — sgwrs gan Mr. Leslie Larsen.
14. Iau — LLANRUG, Clwb Blodau'r Grug; Noson Goffi yn yr Ysgol Gynradd.
15. Gwener — LLANBERIS, Te yr

Henoed; PENISARWAUN, Noson Cawl a Chân am 6.30; BETHEL, Noson Goffi yn y Neuadd pryd y dewisir Brenhines y Carnifal a'i gosgordd.

18. Llun — LLANBERIS, Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30; BETHEL, Pwyllgor y Carnifal yn y Neuadd.

19. Mawrth — YR ARDAL, Theatr Bara Caws yn perfformio 'lechydd Da' yng Nghanolfan Waunfawr am 7.30.

20. Mercher — PENISARWAUN, Yr Urdd — Arlunio gyda Mr. Islwyn Williams.

22. Gwener — WAUNFAWR, Cyngerdd er budd Muscular Dystrophy yn y Ganolfan yng nghwmni Teulu Tŷ'r Ysgol, Dinorwig a Hogia Llandegai.

25. Llun — LLANBERIS, Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

27. Mercher — PENISARWAUN, Yr Urdd — Helfa Drysor.

28. Iau — LLANBERIS, Sefydliad y Merched; WAUNFAWR, Merched y Wawr.

29. Gwener — YR ARDAL, Gwibdaith y Gwanwyn Clwb Eryri; Yr Ysgolion ar gau dros Ŵyl y Pasg; LLANBERIS, Te yr Henoed.

DYDDIADAU I'W COFIO:

Ebrill 7 ... Cyngerdd Mawreddog yng Nghapel Coch, Llanberis gyda Chôr Godre'r Garth;

Ebrill 9 ... Noson yng nghwmni Mr. Dafydd Wigley A.S. a'r Cyngorydd Pat Larsen yng Nghanolfan Deiniolen.

Ebrill 17 ... Oriel Eryri, 7.30. Cyfarfod agoriadol Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa. Darlith gan Maldwyn Thomas, M.A., Bangor ar 'Ddiwylliant Bro'.

Ebrill 19 ... Cyngerdd dan nawdd y Seindorf yng Nghapel Ebeneser Deiniolen.

Ebrill 25 ... Cwmni Drama Llanberis yn perfformio 'Chwalu'r Nyth' yn Neuadd Ysgol Brynrefail.

Mai 24 a 25 ... Treialon Cŵn Defaid yn Cae Tŷ Coch, Nant Peris.

Mehefin 23-29 ... Wythnos Garnifal Llanrug.

Gorffennaf 7-13 ... Wythnos Garnifal Bethel.

CYFLE I ASTUDIO'N LLAWN-AMSER

Warden — Joe England BA

Coleg preswyl tymor-hir ar gyfer addysg oedolion yw Coleg Harlech, yn cynnig cyrsiau i ferched a dynion dros 21 — yn arbennig y rhai a adawodd yr ysgol yn gynnar — ym meysydd Llenyddiaeth Saesneg, Hanes, Economeg, Athroniaeth, Seicoleg, Gwleidyddiaeth, Cysylltiadau Diwydiannol, Cymdeithaseg, Astudiaethau Cymreig, Iaith a Llên Cymru a Llenyddiaeth Gymraeg.

Y mae cyrsiau Blwyddyn ar gael. Arwain cwrs dwy-flynedd at Ddiploma Prifysgol Cymru sydd â'i statws ei hun a hefyd yn bodloni gofynion derbyniad Prifysgolion a Cholegau Politechnig ac addysg. Ceir mynediad drwy gyfweiliad: nid oes angen cymwysterau. Y mae grantiau ar gael i ymgeiswyr addas.

Ysgrifennwch at y Cofrestrydd, Coleg Harlech, Harlech, Gwynedd, LL46 2PU, am y Prospectws a ffurflen gais.

Coleg Harlech

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562



CHWARAEON

Y GOLOFN SNWCER

gan Aeron Jones

CYNGHRAIR BANGOR A'R CYLCH

Safle	ADRAN A	Ch	E	Cyf	Colli	O BI	Yn Er	Pt
3	Gleision Llanrug	21	15	2	4	85	41	32
7	Duon Deiniolen	21	7	8	6	68	58	22
14	Cochion Llanrug	20	3	4	13	39	82	10
15	Gleision Deiniolen	21	1	6	14	37	89	8
	ADRAN B							
6	Duon Bethel	19	8	6	5	61	53	22
7	Gleision Bethel	17	8	5	4	59	43	21
11	Cochion Deiniolen	19	3	10	6	52	59	16

Canlyniadau mis Chwefror:

ADRAN A

Duon Deiniolen

4:2 Gleision Llanrug

3:3 Gleision Marbryn

3:3 Ceidwadwyr Bangor (Gleision)

Gleision Deiniolen

0:6 Clwb Llafur Llangefni

3:3 Duon Porthaethwy

2:4 Cochion Llanrug

Gleision Llanrug

2:4 Duon Deiniolen

4:2 Ceidwadwyr Caernarfon (Gleision)

4:2 Crosville Caernarfon (Duon)

Cochion Llanrug

4:2 Ceidwadwyr Caernarfon (Duon)

1:5 Crosville Caernarfon (Gleision)

4:2 Gleision Deiniolen

ADRAN B

Gleision Bethel

3:3 Gleision Porthaethwy

4:2 Clwb Cymdeithasol Bangor (Gleision)

Duon Bethel

4:2 Cochion Marbryn

3:3 Ceidwadwyr Bangor (Duon)

3:3 Ceidwadwyr Felinheli (Gleision)

Cochion Deiniolen

3:3 Duon Llanfair Pwllgwyngyll

4:2 Duon Bethesda

3:3 Cochion Groeslon

CANLYNIADAU CWPAN Y GYNGHRAIR:

ADRAN A - Mae Gleision Llanrug yn mynd i'r rownd nesaf.

ADRAN B - Yn y rownd nesaf mae Duon Bethel, Gleision Bethel a Cochion Deiniolen.

RHEDWYR LLEOL YN DANGOS EU DAWN

Wedi tawelwch cymharol y tymor rhedeg traws-gwlad dros fisoedd y gaeaf, mae cyfnod o brysurdeb garw yn wynebu rhedwyr sy'n edrych ymlaen at y lluo o rasmus sydd eisoes wedi eu trefnu dros fisoedd y gwanwyn a'r haf.

Ond cyn cefnu ar y tymor rhedeg traws-gwlad, rhaid llongyfarch un o redwyr ieuanc y fro a ddaeth yn agos iawn i fod yn bencampwr cenedlaethol yn ystod y mis diwethaf. Ym mhencampwriaethau rhedeg traws-gwlad Cymru yng Nghaerdydd, daeth Adrian Owen, pedair-ar-ddeg oed o'r Waunfawr, yn bumed yn y ras i fechgyn dan 16 oed; camp dda iawn, o gofio y gall gystadlu dan yr un oedran eto y flwyddyn nesaf. Mae Adrian eisoes yn bencampwr rhedeg traws-gwlad cenedlaethol yr Urdd, ac os y gall gadw'r safon uchel hwn o redeg, buan iawn y caiff ei ddewis i gynrychioli Cymru. Yn yr un ras, daeth Mathew Ward o Lanrug yn bymthegfed drwy Gymru. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt, a phob lwc yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mewn rasmus lleol, genod Llanberis sy'n gwneud enw iddynt eu hunain. Yn Ras Rhostryfan y Sadwrn diwethaf, daeth Linda Prytherch yn gyntaf

mewn ras i enethod dan 12 oed, a Julie Bayliss yn ei dilyn yn ail. Mewn ras arall i enethod dan 16 oed, daeth Eirian Roberts, eto o Lanberis, yn ail. Llongyfarchion i'r tair ohonynt, ond beth ddigwyddodd i'r hogiau?

Dyma restr o rai o'r rasmus lleol sydd eisoes wedi eu trefnu. Gwnewch gofnod ohonynt yn eich dyddiadur!

Mawrth 9: Ras Meol-y-Ci, Rhiwlas

Mai 4: Ras yr Urdd, Dyffryn Ogwen, a Ras Moel Eilio, Llanberis.

Mai 19: Ras Hanner Marathon, Caernarfon

Mai 25: Ras 1,000 metr o Aber i Gopa'r Wyddfa

Mehefin 19: Ras Urdd Eryri, Caernarfon

Mehefin 29: Ras Y Garn, Rhyd-Ddu

Gorffennaf 20: Ras yr Wyddfa, Llanberis

Medi 28: Ras Elidir Fawr, Nant Peris

Hydref 27: Marathon Eryri, Llanberis

Llwyddiant

YM MYD CRICED A PHEL DROED



Derbyniodd Stuart Williams o Lanrug wahoddiad i gael treialon i dîm criced Morgannwg yn ystod yr haf. Mae Stuart yn gapten tîm Ysgolion Gwynedd dan 15 oed, ac mae eisoes wedi chwarae i dîm criced Ysgolion Gogledd Cymru.

Mae'n debyg y bydd Steven Owen, Cwm-y-Glo yn ennill ei gap cyntaf i dîm Ysgolion Cymru dan 18 oed. Mae Steven yn y garfan o bymtheg o chwaraewyr fydd yn mynd i Loughborough am benwythnos o hyfforddiant cyn chwarae'r gêm gyntaf yn Abertillery yn erbyn Ysgolion yr Alban.

Mae gobaith hefyd y bydd yn cael ei ystyried fel gôl-geidwad i'r tîm ieuenctid proffesiynol dan ofal Mike England. Efallai, felly, y gwelir dau o fechgyn yr ardal yn chwarae i dîm Cymru, oherwydd mae Malcolm Allen o Ddeiniolen, sydd ar lyfrau Watford, eisoes yn aelod o'r tîm cenedlaethol hwnnw.

TÎM 'VALLEY SWIFTS'

Gwybodaeth am lun Tim Peldroed Valley Swift 1912-13 Deiniolen Tynnwyd y llun yn Hafod-y-Gaer. Yr aelod ar y chwith, yn y rhes flaen yw Evan Jones, (Crown gynt), a'r ail o'r dde yn y rhes flaen yw R.R. Williams, Gallt y Foel (Rob bach shop). Y wybodaeth gan Mr. R. Jones, Prenteg, Deiniolen.

Oes mwy o wybodaeth tybed?

APÊL

Gwybodaeth am chwaraeon yn yr ardal. Mae'r chwaraewyr dartiau ac yn y blaen yn gyndyn o anfon newyddion i'r 'Eco'. Rhowch sylw i'ch gêm chi a chysylltwch â ni.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

RHEDWYR TRAWS-GWLAD YSGOL BRYNREFAIL



Ar Ionawr 30, aeth amryw o ddisgyblion Ysgol Brynrefail i redeg ym Mhencampwriaeth Ysgolion Arfon ym Mangor. Roedd wyth o'r rhedwyr wedi gwneud yn ddigon da i gael eu dewis i redeg ym Mhencampwriaeth Ysgolion Gwynedd, ond yn anffodus, bu'n rhaid gohirio'r cyfarfod oherwydd y tywydd.

Dyma safleoedd yr wyth sydd yn y llun:-

Bechgyn dan 15 oed:

1. Paul Grant, Llanrug
 2. Paul Prytherch, Llanberis
 10. Neil Roberts, Brynrefail
- Bechgyn dan 17 oed:
3. Mathew Ward, Llanrug
 4. Russell Williams, Bethel
- Genethod dan 13 oed:
3. Julie Bayliss, Llanberis
 4. Jennifer Clarida, Llanberis
- Genethod dan 17 oed:
9. Anna Wood, Deiniolen

SGIO:- DROS GYMRU YN BULGARIA

Dewiswyd 4 disgybl o Ysgol Brynrefail i sgîo tros Gymru ym Mulgaria yn ddiweddar. Y 4 oedd Matthew Ingle, Phillip Ingle, Kirsty McCann a Robina McCann. Cynhaliwyd y gystadleuaeth yn Pamporovo, lle mae amryw o ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn mynd ar wyliau sgîo mis Ionawr nesaf.

Bu'r plant yn ymarfer a 4 diwrnod ac yna cafwyd 2 ddiwrnod o rasio

brwdfrydig. Enillwyd y gystadleuaeth oedd Bulgaria gyda 50 pwynt ac yr oedd Lloegr yn ail gyda 32 pwynt a Chymru yn drydydd gyda 28 pwynt.

Safleoedd Ysgol Brynrefail:- Slalom: Matthew Ingle - 13; Phillip Ingle - 15; Kirsty McCann - 8; Robina McCann - 7; Giant Slalom: Matthew Ingle - 15; Phillip Ingle - 14; Kirsty McCann - 9; Robina McCann - 8.

CANLYNIADAU PEL DROED

Cwpan Iau Gogledd Cymru Sed Rownd

Glantraeth 1 Llanberis 2

Cpan Moorings Rownd 1

Bontnewydd 0 Llanrug 0

Penygroes 6 Deiniolen 2

Cynghrair Ieuenctid

Bangor 1 Llanberis 4

Bethel heb gêm oherwydd fod Nantlle yn methu â chael tîm.